

**“Hyrwyddo Abertawe”
Cynllun Gwella
2002/03**

30ain Mehefin 2002



Dinas a Sir Abertawe

Cynnwys

		Tudalen
	Rhagair	5
Pennod 1	Hyrwyddo Abertawe: Ein Pwrpas Cyffredinol	7
Pennod 2	Ein Nodau Corfforaethol 2002-2004	8
Pennod 3	Costau'r Cyngor	21
Pennod 4	Gwella'r Gwasanaethau	25
Pennod 5	Gwasanaethau a adolygwyd yn 2000/01	35
Pennod 6	Adolygu gwasanaethau yn 2001/02	47
Pennod 7	Data Perfformiad	61

Rhagair**Cynllun Gwella Hyrwyddo Abertawe**

Dyma 'Gynllun Gwella Hyrwyddo Abertawe' cyntaf Dinas a Sir Abertawe. Mae'n esbonio beth yw prif nodau'r Cyngor ar gyfer y ddwy flynedd nesaf, ac yn pennu nifer o dargedau er mwyn dangos sut rydym yn llwyddo i gyflawni'r nodau a bennwyd ar gyfer ein hunain.

O ganlyniad i ymgynghori sylweddol, mae'r Cyngor yn cydnabod bod yn rhaid i ni weithio mewn ffyrdd gwahanol i ddarparu'r gwasanaethau y mae'r cyhoedd yn eu disgwyl yn yr 21ain Ganrif – a gallu dangos yn gyhoeddus sut rydym yn cymharu â'r safonau a bennwyd gennym.

Bydd y cynllun hefyd yn cynorthwyo'r Cynghorwyr a'r Staff i weld sut mae eu gwaith o fudd i Ddinas a Sir Abertawe gyfan. Bydd yn rhoi **Pwrpas Cyffredinol** i'r Cyngor ac yn ein cynorthwyo i weithredu mewn ffordd fwy cydlynol.

Bydd hefyd yn cynorthwyo i gyfeirio'r Cyngor pan fydd yn gorfod gwneud penderfyniadau anodd wrth gydbwyso anghenion a dyheadau'r cyhoedd gyda'r arian mae'n rhaid ei godi o drethi cenedlaethol a lleol a rhenti tai cyngor. Dechreuodd y gwaith yn barod o ran hyn gyda'r Cyngor yn astudio'i gyllideb yn fanwl i weld a ddylai'r arian gael ei sianelu at ble mae'r angen fwyaf.


Yr un mor bwysig yw'r ffordd yr ydym yn gweithredu fel Cyngor. Rydym yn benderfynol o annog Cynghorwyr a swyddogion i ystyried y Cyngor fel un sefydliad – nid fel casgliad o adrannau gwahanol. Rhaid i bawb sy'n rhan o'r Cyngor ystyried mai'r cyhoedd, 'ein cwsmeriaid', yw craidd ein busnes, a fydd, yn hollol deg, yn ein galw i gyfrif am y ffordd yr ydym yn gweithredu ein dyletswyddau a'n cyfrifoldebau. Unwaith eto, mae'r gwaith o newid sut rydym yn gweithredu wedi dechrau'n barod ac mae ymagweddau newydd yn y broses o gael eu gweithredu.

Efallai y byddwch yn gofyn beth sy'n digwydd ar ôl 2004. Bydd rhan o'r ateb yn rhan o ddatblygu'r Cynllun Cymunedol a amlinellir yn y ddogfen hon ym Mhennod 4. Y peth pwysicaf i ni yw'r mewnbwn a'r adborth o'r cymunedau lleol yr ydym yn eu gwasanaethu. Rydym eisiau gwybod beth rydych chi'n ei feddwl a pha wasanaethau rydych chi'u heisiau.

Gobeithio bydd y ddogfen hon yn rhoi syniad clir i drigolion Abertawe o'n blaenoriaethau a'r ffordd y byddwn yn mesur ein llwyddiant neu fel arall. Credwn hefyd y bydd o fudd i bawb sy'n rhan o'r Cyngor – Cynghorwyr, Prif Swyddogion, Rheolwyr a darparwyr gwasanaeth – i deimlo'n rhan o un sefydliad sy'n ymroddedig i gyflwyno gwasanaethau o'r ansawdd uchaf yn Ninas a Sir Abertawe.



Arweinydd



Prif Weithredwr

Pennod 1

Hyrwyddo Abertawe: Ein Pwrpas Cyffredinol

Rydym wedi pennu ein **Pwrpas Cyffredinol** yn y datganiad canlynol:

Rydym eisiau bod yn sefydliad sy'n gwella'n barhaus ac sy'n darparu gwasanaethau sy'n cwrdd ag anghenion a disgwyliadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y gymuned.

I wneud y datganiad hwn yn ystyrlon, rydym wedi pennu rhai safonau cyffredinol, yr ydym yn eu galw'n "*Egwyddorion Arweiniol*", y credwn y mae'n rhaid i ni eu dilyn fel y gallwn gyflawni ein Pwrpas Cyffredinol.

Y safonau hyn yw:

- Gwerthfawrogi mai pobl (ein gweithwyr) yw ein prif adnodd.
- Cydnabod mai Cyfathrebu da, ym mhob ystyr, yw'r allwedd i sefydliad effeithiol.
- Hyrwyddo'r ffaith ein bod yn Endid Corfforaethol ac yn un sefydliad. Nid oes unrhyw agwedd o'r Cyngor hwn sy'n 'ddim byd i wneud â ni'.
- Cydnabod bod ein llwyddiant fel Cyngor yn cael ei farnu gan eraill. Safonau, perfformiad a gonestrwydd yw ein congifeini. Y Cynghorwyr a'r staff yw llysgenhadon yr Awdurdod.
- Gwneud defnydd effeithiol o adnoddau wrth ddilyn gwelliant parhaus yn ansawdd ac effeithiolrwydd yr holl wasanaethau.

Yn olaf, o'r ymgynghoriadau a wnaed gennym, mae gennym syniad clir o'r tasgau pwysicaf y mae'n rhaid i'r Cyngor ymgymryd â nhw. Dyma ein "**Nodau Corfforaethol**" ac mae'r rhain yn nodi, yn eang iawn, yr hyn rydym eisiau ei gyflawni i Abertawe. Ni allant gael eu cyflawni gan adrannau unigol, na chan y Cyngor yn unig, ond byddwn yn defnyddio'r **Nodau** hyn, a'r **Gweithredoedd** mwy penodol a restrwyd o dan y penawdau hyn, i fesur ein datblygiad wrth ddatblygu'n Gyngor o'r radd flaenaf. Ac, oherwydd ein bod yn cyhoeddi canlyniadau'r monitro, bydd y bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau yn gallu barnu drostynt eu hunain ein llwyddiant neu'n methiant.

Er mwyn cynorthwyo i fesur ein datblygiad wrth gyflawni ein Nodau Corfforaethol, rydym wedi cynnwys nifer o fesurau neu **ddangosyddion**. Mae'r Dangosyddion hyn (Dangosyddion Perfformiad Allweddol neu DPA) yn deillio o naill ai ymarferion ymgynghori, neu o ddangosyddion a benderfynir yn lleol neu o ddangosyddion a bennwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (CCC). Byddwch yn gweld mewn cromfachau o ble mae'r dangosyddion yn dod, ac os o CCC, byddant yn cynnwys y cyfeirnod cenedlaethol. Mae'r dangosyddion perfformiad hyn hefyd yn cael eu cynnwys yn nhablau Data Perfformiad Pennod 7.

Pennod 2**Ein Nodau Corfforaethol 2002-2004****NOD 1 Bwriad Abertawe yw darparu gwasanaethau ardderchog a hygyrch i'n holl gwsmeriaid.**Gair Allweddol: **Cwsmeriaid**

Rydym eisiau i Abertawe gael ei adnabod am ansawdd uchel ei wasanaethau, wedi'u cyflwyno ar amser ac mewn ffordd gwrtais a chyfeillgar. Byddwn yn barod i weithio ar y cyd gydag eraill i gyflawni ein nodau ac ymgynghori'n ofalus er mwyn ystyried barn pobl. Byddwn yn hyrwyddo dinasyddiaeth dda a democratiaeth leol.

Y nodweddion a fydd yn cynorthwyo i gyflawni'r rhain yw:

- Ymrwymiad parhaol i gyfleoedd cyfartal o ran mynediad, gwasanaethau a chyflogaeth
- Arweiniad strategol a gwaith tîm effeithiol
- Cynllunio a chyflwyno gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y cwsmeriaid
- Cefnogi a datblygu rheolwyr a gweithwyr
- Pennu safonau a llwybr clir ar gyfer gwelliant parhaus

DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL

	DANGOSYDDION	PERFFORMIAD PRESENNOL	TARGED	GRADDFA AMSER
1	Y canran o drigolion sy'n fodlon ar safonau cyffredinol y gwasanaethau a ddarperir gan yr awdurdod (Ymgynghori)	56%	66%	2003/4*
2	Y canran o ryngweithiadau gyda'r cyhoedd, yn ôl math, sy'n gallu cyflwyno gwasanaethau yn electroneg ac yn gallu cael eu cyflwyno drwy ddefnyddio protocolau'r rhyngwrwyd neu ddulliau dibapur eraill (DPCCC 1.5)	17%	100% Lle bo'n briodol a bod angen	2005**
3	Y canran o bobl sy'n cwyno ond sy'n fodlon ar y ffordd yr aethpwyd i'r afael â'r mater (Lleol)	Dangosydd Newydd	70%	2005**
4	Y canran o adeiladau'r Cyngor sy'n agored i'r cyhoedd gyda mynediad addas i bobl anabl (DPCCC 1.15).	10%	30% 50%	2002/3* 2003/4*
5	Yr amser ar gyfartaledd a gymerwyd i brosesu cais newydd am fudd-dâl Tai neu dreth y Cyngor (DPCCC 11.3)	40.94 diwrnod	40 diwrnod 30 diwrnod	2002/3 Ebrill 2004

Yr Hyn y Byddwn yn ei Wneud**Dangosydd 1**

- Datblygu Cynllun Gwella Gwasanaethau ar gyfer casglu Treth y Cyngor erbyn Mawrth 2003
- Datblygu a chyflwyno llawlyfr tenantiaid i holl denantiaid y Cyngor erbyn Mawrth 2003, sydd hefyd ar gael ar y Rhyngwrwyd
- Sicrhau bod y gweithwyr priodol wedi mynychu hyfforddiant Gwasanaethau Cwsmeriaid erbyn 2003
- Parhau â rhaglen o adolygiadau gwasanaeth yn ystod 2002/4

Dangosydd 2

- Datblygu strategaeth ar gyfer e-lywodraeth erbyn Mawrth 2003
- Gosod system gyfrifiadurol ddiwygiedig yn yr Is-adrannau Treth y Cyngor a Budd-daliadau Tai er mwyn galluogi rhyngweithio electronig erbyn Chwefror 2003

Dangosydd 3

- Gwneud arolwg boddhad o'r bobl a gwynodd, y cyfeiriwyd eu cwynion at y Swyddogion Cwyno ynghylch y gwasanaeth a ddarparwyd erbyn Rhagfyr 2003.

Dangosydd 4

- Rhaid i bob adeilad cyhoeddus gael ei asesu'n dechnegol am fynediad i bobl anabl yn erbyn y meini prawf perthnasol erbyn **2003**
- Ymgymryd â rhaglen dreigl o waith gwella mynediad erbyn **2004**

Dangosydd 5

- Erbyn 2003 sefydlu gweithdrefnau effeithiol sy'n cyflymu casglu gwybodaeth oddi wrth yr hawlwyd i leihau'r amser prosesu.

* Blwyddyn Ariannol ** Erbyn diwedd y flwyddyn

Ein Nodau Corfforaethol 2002-2004

NOD 2 Bwriad Abertawe yw cael ei gydnabod am ei amgylchedd glân a deniadol.

Gair Allweddol: **Glendid**

Byddwn yn gwella ac yn cynnal canol y ddinas a mannau cyhoeddus eraill drwy eu gwneud yn fwy glân, yn fwy croesawgar a deniadol i safon y bydd ein trigolion yn gallu ymfalchïo ynddi.

Y nodweddion a fydd yn cynorthwyo i gyflawni hyn yw:

- Gwella canol y ddinas – ein 'ffenstr siop'
- Cadw ardaloedd cyhoeddus yn lân
- Hyrwyddo gwneud y ddinas yn fwy gwyrdd ac Abertawe yn ei Blodau
- Uwchraddio a chynnal y stoc tai a'r stadau
- Cychwyn ar ymgyrchoedd dim sbwriel a dim baw cŵn

DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL

	DANGOSYDDION	PERFFORMIAD PRESENNOL	TARGED	GRADDFA AMSER
1	Y canran o bobl sy'n fodlon ar safonau glendid ym mannau cyhoeddus y Ddinas (Ymgynghori)	80%	90%	2002/3*
2	Y nifer o gasgliadau a gollwyd fesul 100,000 o gasgliadau sbwriel tai. (DPCCC 5.6)	60.3	300	2004/5*
3	Y cynnydd mewn canran yn y nifer o gyfranogwyr, preifat a busnes, yn y fenter Abertawe yn ei Blodau. (Lleol)	67	5% cynnydd	2002/3*
4	Y nifer o rybuddion gorfodaeth a gyhoeddwyd/erlyniadau yn erbyn troseddau baw cŵn. (Lleol)	Dangosydd Newydd	40	2002/3*
5	Y gyfran o dai anaddas yn y sector preifat a) wedi gwella neu wedi'u dymchwel b) gyda rhai'n dychwelyd i fyw yno os buont yn wag am fwy na 6 mis (DPCCC 4.1)	6.4% 5.0%	7% 5.0%	2002/3* 2002/3*

* Blwyddyn Ariannol

Yr Hyn y Byddwn yn ei Wneud

Dangosydd 1

- Llunio tair ymgyrch gyhoeddus ar wella glendid strydoedd yn yr ardaloedd gwaethaf yn 2002/3
- Llunio polisi o weithredu gorfodol yn 2002/3 yn yr ardaloedd gwaethaf yn erbyn y rhai sy'n taflu sbwriel.
- Cyflwyno menter i wella rheoli gwastraff masnachol yn yr ardaloedd i gerddwyr yng Nghanol y Ddinas yn 2002/3

Dangosydd 2

- Creu rhaglen o wybodaeth a chynyddu ymwybyddiaeth ar gyfer trigolion am drefniadau casglu sbwriel y Cyngor yn ystod 2002/3

Dangosydd 3

- Datblygu ac ymestyn yr ymgyrch gyhoeddus ac ymwybyddiaeth bresennol ar gyfer y rhaglen Abertawe yn ei Blodau yn ystod 2002

Dangosydd 4

- Gweithredu polisi o orfodaeth ar gyfer troseddau sy'n ymwneud â chŵn yn ystod 2002/3

Dangosydd 5

- Parhau i dargedu adnoddau tuag at adnewyddu tai sy'n anaddas i fyw ynddynt drwy raglenni adnewyddu a grantiau cymorth i atgyweirio tai a gorfodaeth statudol yn ystod 2002/3.

Ein Nodau Corfforaethol 2002-2004

NOD 3 Bwriad Abertawe yw diogelu a hyrwyddo lles a iechyd ei holl drigolion, gan gynnwys pobl fregus, mewn cymunedau diogel a chefnogol.

Geiriau Allweddol: Cymunedau/Diogelu

Byddwn yn gweithio i sicrhau ein bod yn darparu cefnogaeth i'n trigolion sydd dan anfantais, neu y rhai sydd yn y perygl mwyaf, a chynorthwyo pobl i gael mwy o ddewis a rheolaeth dros eu bywydau er mwyn gwella eu hannibyniaeth. Byddwn yn gweithio gydag eraill i greu dinas fwy diogel a iach lle gall pobl fyw heb ofn troseddau yn y ddinas neu yn eu cymunedau. Ein bwriad yw gwneud Abertawe yn lle i bawb.

Y nodweddion a fydd yn cynorthwyo i gyflawni hyn yw:

- Gwella gofal cymdeithasol
- Hyrwyddo annibyniaeth
- Diogelu plant mewn angen
- Cefnogi pobl ifanc sy'n gadael gofal a'r gofalwyr
- Hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol
- Hyrwyddo iechyd a lles ac annog ffyrdd iach o fyw

DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL

	DANGOSYDDION	PERFFORMIAD PRESENNOL	TARGED	GRADDFA AMSER
1	Y canran o drigolion a ddywedodd eu bod yn teimlo'n "gymharol ddiogel" neu'n "ddiogel iawn" ar ôl iddi nosi: a) yn eu cymdogaeth b) yng nghanol y ddinas (Ymgynghori)	77% 28%	80% 40%	2003/4* 2004/5*
2	Y canran o feysydd parcio sy'n Feysydd Parcio Diogel dan y Faner 'Diogelwch yn ôl Dyluniad'. (Lleol)	2.3%	13.6%	2002/3*
3	Y nifer o bobl hŷn (65 oed neu drosodd) sy'n derbyn cymorth i fyw gartref fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed neu drosodd. (DPCCC 3.7)	169.45	169.45	2002/3*
4	Sicrhau bod y canran o blant sy'n cael eu gwarchod ac wedi cael mwy na dau leoliad yn y flwyddyn yn is na'r targed o 10% fel y diffinwyd gan CCC (DPCCC 3.1)	7.92%	7%	2002/3*
5	Cyfanswm defnyddwyr gweithgareddau byw'n iach a ddarperir gan yr Awdurdod. (Ymgynghori)	4,800,000	4,900,000	2002/3*

*Blwyddyn Ariannol

Yr Hyn y Byddwn yn ei Wneud

Dangosydd 1

- Datblygu strategaeth lleihau troseddau newydd a chynllun gweithredu lleol yn 2002
- Gweithredu rhaglen 3 blynedd gylchol ar gyfer newid lampau'r strydoedd yn ystod 2002/2004
- Cynyddu nifer y croesfannau cerddwyr gyda chyfleusterau ar gyfer pobl anabl yn ystod 2002/4, o 69% i 80%
- Gweithredu ymgyrch farchnata i gynyddu ymwybyddiaeth o Uned Cefnogi Cymdogaeth y Cyngor yn ystod 2002/3
- Darparu o leiaf dau gamera CCTV ychwanegol yng Nghanol y Ddinas erbyn 2004

Dangosydd 2

- Gweithredu rhaglen dreigl o welliant i 5 o feysydd parcio'r Cyngor gyda'r bwriad o gyflawni Statws Diogel Trwy Ddyluniad yn ystod 2002/4.

Dangosydd 3

- Gweithredu Strategaeth Iechyd – Gofal Cymdeithasol ar y cyd i hyrwyddo annibyniaeth pobl hŷn yn 2002
- Cynhyrchu Strategaeth Gomisiwn ar gyfer gwasanaethau'r bobl hŷn er mwyn gwella ystod ac argaeledd y gwasanaethau sy'n seiliedig yn y gymuned erbyn 2003

Dangosydd 4

- Creu 15 lleoliad maethu ychwanegol erbyn Ebrill 2003

Dangosydd 5

- Cynhyrchu a lansio Strategaeth Ddiwylliannol ar gyfer Dinas a Sir Abertawe yn 2002
- Gweithredu Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol Corfforaethol yn 2002/3.
- Agor Pwll Nofio Cenedlaethol Cymru Abertawe i'r cyhoedd erbyn Ionawr 2003
- Agor Canolfan Chwaraeon o Ragoriaeth newydd Abertawe erbyn Ionawr 2004

Ein Nodau Corfforaethol 2002-2004

NOD 4 Bwriad Abertawe yw cynnal a diogelu cenedlaethau'r dyfodol.

Gair Allweddol: Cynaliadwyedd

Byddwn yn gweithio i sicrhau ansawdd bywyd da i bawb yn ogystal â chyfrannu at hyrwyddo agenda datblygu cynaliadwyedd byd-eang. Byddwn yn hyrwyddo datblygiad sy'n cwrdd ag anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion personol hwy.

DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL

	DANGOSYDDION	PERFFORMIAD PRESENNOL	TARGED	GRADDFA AMSER
1	Y canran o wastraff bwrdeistrefol a ailgylchwyd neu a gompostwyd (DPCCC 5.1)	10.4%	15%	2004
2	Y cynnydd yn y nifer o bobl ifanc sy'n teithio i'r ysgol ac o'r ysgol fel rhan o'r Prosiect Taith Ddiogel i'r Ysgol ar y beic neu drwy gerdded. (Lleol)	741	841	2002/3*
3	Y cynnydd yn effeithiolrwydd ynni tai sy'n eiddo i'r Cyngor (Dosbarthiad GAS **) (DPCCC 4.2)	38	43 46	2002/3* 2003/4*
4	Cynhyrchu Cynllun Gweithredu Bio-Amrywiaeth (Lleol)	Dangosydd Newydd	To have established a credible set of baseline indicators within the Bio-Diversity Action Plan	2002/3
5	Cydymffurfio â phob Amcan Ansawdd Aer a bennwyd yn genedlaethol i ddiogelu iechyd a'r amgylchedd yn Ninas a Sir Abertawe (Lleol)	71%	100%	2002/6*

*Blwyddyn Ariannol

**Dosbarthiad gwobrau GAS (Gweithdrefn Asesu Safonol) hyd at 100 ar gyfer mesurau arbed ynni mewn cartrefi

Y nodweddion a fydd yn cynorthwyo i gyflawni hyn:

- Sicrhau bod "cynaliadwyedd" yn ffurfio elfen allweddol o'n cynllun cymunedol
- Cymryd rhan mewn partneriaethau gydag amrywiaeth eang o unigolion a sefydliadau i symud tuag at gymuned mwy cynaliadwy
- Chwarae rôl allweddol mewn partneriaethau adfywio
- Sicrhau bod y Cyngor ei hunan yn gweithredu mewn ffordd gyfrifol ac amgylcheddol.
- Annog arfer da wrth ddylunio a defnyddio deunyddiau ac ynni o fewn yr amgylchedd adeiladu

Yr Hyn y Byddwn yn ei Wneud

Dangosydd 1

- Cynyddu nifer y cartrefi sy'n derbyn casgliadau ailgylchu ymyl y ffordd drwy raglen dreigl yn ystod 2002/4 o 28,000 i 48,000
- Darparu 10 canolfan ailgylchu fechan ychwanegol ar draws Dinas a Sir Abertawe a gwastraff gwyrdd erbyn 2003/4
- Darparu cyfleusterau ailgylchu mewn Safleoedd Amwynder Dinesig erbyn Mawrth 2003 ar gyfer gwastraff tai peryglus a chardbord
- Cyflwyno system gompostio "In-Vessel" ar gyfer gwastraff gwyrdd a chegin erbyn Ionawr 2004.

Dangosydd 2

- Cyflwyno ceisiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru am ddau gynllun 'Teithiau Diogel i'r Ysgol' ychwanegol yn 2002/3.
- Penodi Cydlynnydd Diogelwch Plant yn Croesi er mwyn datblygu sgiliau ymwybyddiaeth o ddiogelwch ffyrdd i bobl ifanc yn 2002, yn destun cyllid CCC.

Dangosydd 3

- Ymgymryd ag arolwg o gyflwr stoc tai y Cyngor er mwyn deall gofynion cynnal ac effeithiolrwydd ynni yn y dyfodol erbyn Mawrth 2003

Dangosydd 4

- Sefydlu cyfres o ddangosyddion sylfaenol credadwy o fewn y Cynllun Gweithredu Bio-Amrywiaeth.

Dangosydd 5

- Cynyddu nifer y cerbydau yn llu'r Cyngor sy'n defnyddio ffurfiau "mwy gwyrdd" o danwydd ar gyfartaledd o 10% y flwyddyn hyd 2004.
- Llunio Cynllun Gweithredu Statudol Ansawdd Aer, gan gynnwys rhaglen weithredu, erbyn 2006.
- Plannu 200 o goed newydd yn Abertawe erbyn Mawrth 2003.

Ein Nodau Corfforaethol 2002-2004

NOD 5 Bwriad Abertawe yw parhau i ddatblygu fel Dinas a Sir o Ddysg

Gair Allweddol: **Dysgu**

Byddwn yn hyrwyddo'r cyraeddiadau addysgol mwyaf posib ar gyfer ein holl drigolion. Byddwn yn anelu at wella cyfleoedd i bob dysgwr o'r rhai ifanc i'r rhai hŷn drwy ddarparu mynediad i ddysgu gydol oes.

Y nodweddion a fydd yn cynorthwyo i gyflawni hyn:

- Datblygu diwylliant o ddysgu
- Gwella'r cyfleoedd i bob dysgwr
- Cynyddu'r cyfleusterau a'r gweithgareddau sydd ar gael mewn ysgolion, llyfrgelloedd a lleoliadau cymunedol eraill
- Darparu profiadau dysgu mewn orielau cyhoeddus, amgueddfeydd, parciau, canolfannau hamdden a thrwy chwaraeon

DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL

DANGOSYDDION	PERFFORMIAD PRESENNOL	TARGED	GRADDFA AMSER
1 Pob ysgol i gael ei harolygu bob blwyddyn dan Adran 10 (Deddf Addysg 1966) y bernir eu bod wedi datblygu ers yr arolwg diwethaf. (lleol)	94%	100%	2001-2004**
2 Canran sy'n gadael gyda rhyw fath o gymhwyster cydnabyddedig yn 16 oed (arholiadau + eraill) (DPCCC 2.7)	95.5%	97.4%	2001-2004**
3 Cyfanswm y buddiolwyr a gefnogwyd drwy Wasanaeth Sgiliau Abertawe gan y Gwasanaeth Addysg Gymunedol (Lleol)	920	1712	2002-2004**
4 Y nifer o ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus. (DPCCC 9.2)	868,530	924,000	2002/3*

*Blwyddyn Ariannol **Blwyddyn Academaidd

Yr Hyn y Byddwn yn ei Wneud

Dangosydd 1

- Llunio polisi Cynhwysiad Addysgol y Cyngor erbyn Ebrill 2003 fel bod pob ysgol yn datblygu diwyllianau, polisiau ac ymarferion cynhwysol a chyfleoedd dysgu priodol i'w cynnig i bob plentyn a pherson ifanc
- Darparu cefnogaeth ac arweiniad i ysgolion er mwyn codi safonau yn enwedig ar gyfer plant yn yr ystod oedran 9-13 ac yn ystod trosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd fel tystiolaeth o'r Dangosydd Pwnc Craidd

Dangosydd Pwnc Craidd		
	2001	2004
Cyfnod Allweddol 2	69	76
Cyfnod Allweddol 3	49	53
yn 15	36	44

- Moderneiddio isadeiledd TGCh yn raddol er mwyn cwrdd â TGCh ar gyfer gofynion dysgu a galwadau'r e-gymuned. Bydd y cam cyntaf wedi ei osod mewn ysgolion uwchradd a chanolfannau dysgu erbyn Mawrth 2003.

Dangosydd 2

- Annog pobl ifanc i fynd ymlaen i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth yn yr ystod oedran 16 – 19 drwy leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth o 4.3% yn 2001 i 2.5% yn 2004 a hefyd y bobl ifanc lle mae eu cyrchfan ôl-16 yn anhysbys o 7% yn 2001 i 1% yn 2004
- Gwella cyfleoedd dysgu a hamdden i blant a phobl ifanc pan nad ydynt yn yr ysgol drwy gynyddu nifer y gweithgareddau y tu allan i'r ysgol ar draws Abertawe yn ystod 2002-2004 drwy sefydlu 30 man cyfarfod a 3 phrosiect ieuencid teithiol gyda gweithwyr ieuencid yn cysylltu â 500 o bobl ifanc

Dangosydd 3

- Gweithio gyda phartneriaid yn y Consortiwm Cymunedol dros Addysg a Hyfforddiant (Ôl-16) ar sail gyfredol i barhaol
 - cynyddu'r ddarpariaeth o gyfleoedd dysgu gydol oes ym mhob cymuned ar draws Abertawe
 - cynyddu nifer y cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant sy'n seiliedig ar sgiliau a gwaith
- Gweithredu Strategaeth Hyfforddi gorfforaethol ar gyfer gweithwyr y cyngor yn ystod 2002/4

Dangosydd 4

- Cyflwyno cyfleoedd dysgu a mynediad newydd ym maes aml-gyfrwng a Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu drwy'r gwasanaethau llyfrgell erbyn diwedd 2003.

Ein Nodau Corfforaethol 2002-2004

NOD 6 Mae Abertawe yn bwriadu cael ei adnabod fel lle newydd a llewyrchus y mae pobl yn dewis byw a gweithio ynddo ac ymweld ag ef.

Gair Allweddol: Ffyniannus

Byddwn yn cynorthwyo i ddatblygu economi leol gryf ac amrywiol ac annog busnes a buddsodiant yn y ddinas. Byddwn yn archwilio cyfleoedd newydd am ariannu, yn gwneud yn fawr o'r cyfleoedd sy'n bodoli, ac yn datblygu twristiaeth a gwaith gydag eraill i leihau diweithdra.

DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL				
	DANGOSYDDION	PERFFORMIAD PRESENNOL	TARGED	GRADDFA AMSER
1	Cynyddu nifer yr ymwelwyr dydd a thros nos â Dinas a Sir Abertawe (Lleol)	3,117,000	3,896,250	2005
2	Cymharu cyfraddau diweithdra yn Abertawe â chyfartaledd Cymru. (Lleol)	+0.4% (lon -02)	I fod yn hafal, neu'n llai na chyfartaledd Cymru	2005
3	Safle Canol Dinas Abertawe yn ôl Mynegai Experian Vitality** (Lleol)	56	I fod yn y 50 uchaf	2005
4	Y nifer o Gynlluniau Gweithredu Cymunedau'n Gyntaf a gymeradwywyd gan CCC (Lleol)	Dangosydd Newydd	2	2003

*Blwyddyn Ariannol **Mae Mynegai Experian Vitality yn mesur llwyddiant Dinasoedd.

Rhai o'r nodweddion a fydd yn cynorthwyo i gyflawni hyn:

- Hyrwyddo a gwella Abertawe fel prifddinas ranbarthol
- Adfywio canol y ddinas
- Datblygu a hyrwyddo atyniadau diwylliannol ac adloniadol ar gyfer ymwelwyr a thrigolion Dinas a Sir Abertawe
- Creu cyfleoedd buddsoddi a chefnogi pethau newydd
- Gwell cludiant cyhoeddus a lleihau tagfeydd
- Annog datblygu opsiynau tai gwahanol
- Hyrwyddo adfywio cymdeithasol ac economaidd cymunedol

Yr Hyn y Byddwn yn ei Wneud
<p>Dangosydd 1</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gweithredu Cynllun Gweithredu Ardal Dwf Twristiaeth Strategol yn 2002. • Llunio ymgyrch farchnata yn 2003/04 i hyrwyddo'r Ardal fel cyrchfan wyliau 'ychwanegol' er mwyn ymestyn y tymor a denu busnes newydd. • Agor yr Amgueddfa Glan môr Genedlaethol yn 2006
<p>Dangosydd 2</p> <ul style="list-style-type: none"> • Hyrwyddo buddsoddi o'r tu allan a datblygu'r safle drwy drefnu 12 digwyddiad ar gyfer Cyfansoddiad Busnes Allweddol yn y Canolbarth, De-ddwyrain Lloegr, Coridor yr M4 ac Iwerddon, gydag 8 ymweliad ychwanegol â chysylltiadau telefarchnata erbyn 2004. • Cynorthwyo diwydiannau a masnach frodorol drwy weithgareddau penodol fel gweithredu gwefan "Rhyngweithio Busnes Abertawe" yn ystod 2002. • Cynorthwyo busnesau lleol i allforio drwy ddatblygu mentrau fel "Ffrindiau yn Nenmarc" gydag o leiaf dau fusnes yn cyfnewid ymweliadau rhwng Abertawe a Denmarc erbyn 2003.
<p>Dangosydd 3</p> <ul style="list-style-type: none"> • Creu Canol Dinas cystadleuol gydag ystod eang o atyniadau a chodi proffil drwy weithredu Cynllun Gweithredu Canol y Ddinas yn 2002.
<p>Dangosydd 4</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyflawni 80% o'r targedau blynyddol i'w cyflwyno yn y Cynlluniau Gweithredu Cymunedau'n Gyntaf a gymeradwywyd yn 2003/04


Mesur Llwyddiant

Rydym yn cydnabod bod rhai o'r dyheadau sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun hwn yn rhai heriol. Ar yr un pryd, mae'r Cyngor yn cydnabod er mwyn i Abertawe fod yn llwyddiannus, bydd angen ymrwymiad sylweddol a gwaith caled ar ran pob Cynghorwr a gweithiwr. Mae'r mesurau perfformiad a nodwyd uchod yn cynnwys dim ond rhai o'r ffyrdd y byddwn yn mesur a ydym wedi cyflawni yr hyn a nodwyd yn y Cynllun. Mae nifer o rai eraill ac mae ystod lawnach yn cael ei chynnwys ym Mhennod 7.

Daw'r prawf pwysicaf o lwyddiant oddi wrth y Gymuned. Byddant yn dweud wrthym a yw ein nodau wedi cael eu cyflawni a byddwn yn derbyn y wybodaeth hon drwy barhau â'r ymgynghori rheolaidd drwy'r panel o ddinasyddion "Lleisiau Abertawe" yn ogystal ag ymestyn dulliau eraill o ddarparu adborth fel drwy'r Rhyngwyd.

Heb adborth, mae'r ddogfen hon yn ddiystyr. Ni fyddwn yn gadael i hyn ddigwydd.

Mae'r diagram canlynol yn cysylltu pob agwedd sy'n creu Hyrwyddo Cynllun Gwella Abertawe:



Pennod 3

Costau'r Cyngor

Mae cyflwyno'r Amcanion Corfforaethol a nodwyd yn cynnwys y Cyngor yn darparu ystod eang o wasanaethau sy'n cynnwys:

- Addysg Ysgolion Cynradd ac Uwchradd
- Gofal a chefnogaeth ar gyfer plant, yr henoed, pobl anabl a phobl bregus eraill
- Darparu, rheoli a chynnal tai rhenti fforddadwy
- Rheoli Gwastraff gan gynnwys Casglu Sbwriel ac Ysgubo'r Strydoedd
- Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd gan gynnwys lechyd yr Amgylchedd, Safonau Masnach a Rheoli Adeiladu
- Adeiladu a chynnal priffyrdd
- Ystod eang o gyfleusterau Hamdden
- Gwasanaethau i gefnogi cyflwyno gwasanaethau

I gyflwyno'r gwasanaethau hyn mae'r Cyngor yn cyflogi tua 11,500 o bobl gan gynnwys gweithwyr llawn amser a rhan amser yn ogystal â gweithwyr tymhorol, yn ystod yr haf yn bennaf. Oherwydd y ffigurau hyn, y Cyngor yw'r cyflogwr unigol mwyaf yn yr ardal ac felly mae'n cael effaith sylweddol ar y sefyllfa economaidd leol. Yn ychwnaegol, mae'r Cyngor yn ymdrechu i wario ei arian yn lleol – ac felly'n darparu cefnogaeth bellach i'r economi leol.

Fel darparwr gwasanaethau, mae Cyngor Dinas a Sir Abertawe yn gwasanaethu poblogaeth o 236,000. Bydd darparu gwasanaethau i'r gymuned gyfan yn costio tua £461 miliwn ar gyfer 2002/2003. Mae'r gost hon yn cael ei hariannu mewn 4 prif ffordd:

	£000's
1. Grant Cefnogi Refeniw (telir gan y Cynulliad)	170,675
2. Cyfraddau Annomestig Cenedlaethol (telir gan fusnesau lleol)	45,902
3. Treth y Cyngor (telir gan berchenogion tai)	52,366
4. Incwm arall (grantiau, ffioedd a thaliadau a wnaed gan y Cyngor)	192,472
Cyfanswm	461,415

Mae'r tabl isod yn rhoi rhagor o fanylion am sut bydd yr arian hwn yn cael ei wario yn 2002/2003 ac mae'n cymharu hyn gyda'r gwariant ar gyfer 2001/2002. Mae dadansoddiad mwy manwl o Gyllidebau Refeniw y Cyngor wedi'i gyhoeddi o'r enw "Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf 2002/2003" yn eich llyfrgell leol neu drwy gais at y Cyfarwyddwr Cyllid.

GWARIANT Y CYNGOR AR GYFER 2001/2002 A 2002/2003

Ardal Weithgarwch	Gwir 2001/2002			Cyllideb 2002/2003		
	Gwariant £'000' oedd	Incwm £'000' oedd	Gwariant Net £'000' oedd	Gwariant £'000' oedd	Incwm £'000' oedd	Gwariant Net £'000' oedd
Gwasanaethau Canolog i'r Cyhoedd	14,556	-10,763	3,793	15,373	-11,492	3,881
Gwasanaethau Diwylliant a rhai cysylltiedig	32,631	-10,689	21,942	33,056	-10,723	22,333
Gwasanaethau'r Amgylchedd a Iechyd	20,071	-5,737	14,334	21,245	-6,051	15,194
Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu	20,115	-9,877	10,238	21,100	-10,135	10,965
Gwasanaethau Addysg	142,765	-10,989	131,776	142,597	-12,687	129,910
Prifffyrdd, Ffyrdd, Cludiant	22,719	-998	21,721	26,309	-935	25,374
Tai (gan gynnwys HRA)	80,858	-76,856	4,002	85,428	-81,312	4,116
Gwasanaethau Cymdeithasol (darpariaeth fewnol)	44,906	-13,292	31,614	47,551	-14,705	32,846
Gwasanaethau Cymdeithasol (darpariaeth allanol)	31,385	-8,713	22,672	39,863	-10,905	28,958
Incwm/ gwariant gweithredol arall	12,841	-33,609	-20,768	16,580	-33,527	-16,947
Is-gyfanswm	422,847	-181,523	241,324	449,102	-192,472	256,630
Gorbenion Canolog Nas Dyrannwyd	3,324	-	3,324	3,462	-	3,462
Cynrychiolaeth Ddemocrataidd / Rheoli Corfforaethol	7,567	-	7,567	8,851	-	8,851
Cost Gwasanaethau'r Cyngor	433,738	-181,523	252,215	461,415	-192,472	268,943

* Yn destun archwiliad

Cyfrifon Masnachu

Mae'r gwasanaethau masnachu canlynol yn cael eu darparu gan y Cyngor mewn amgylchedd cystadluol

Gwasanaethau	2001/02 Cyllideb		2001/02 Gwir *		2002/03 Cyllideb		Manylion
	Trosiant £'000	Gwarged/ Diffyg (-) £'000	Trosiant £'000	Gwarged/ Diffyg (-) £'000	Trosiant £'000	Gwarged/ Diffyg (-) £'000	
Hyfforddiant Cyflogaeth	3,043	-781	3,043	-618	3,154	-920	Hyfforddiant Galwedigaethol Ôl-18 gan gynnwys Cytundebau Hyfforddi a Menter y Cyngor
Eiddo Canol y Ddinas	1,871	-221	2,060	70	1,695	-82	Eiddo Canol y Ddinas sy'n eiddo i'r Awdurdod (gan gynnwys Canolfan y Cwadrant)
Cwm Tawe Isaf	1,493	-181	1,520	-198	1,485	-89	Eiddo sydd ym meddiat yr Awdurdod yng Nghwm Tawe Isaf
Gwasanaethau Adeiladu	19,131	590	23,355	1,167	23,121	499	Gwasanaethau Adeiladu a Chynnal Adeiladau
Adeiladu Peiriannau	2,740	68	3,155	170	2,992	19	Gwasanaethau Adeiladu a Chynnal Peiriannau
Cynnal Cerbydau	1,323	105	1,345	138	1,429	123	Cynnal a Chadw'r Cerbydau
Ymgynghoriaeth Gwasanaethau Technegol	1,188	130	1,045	-76	996	-234	Gwaith Ymgynghori ar ran Dŵr Cymru
Parcio oddi ar y Stryd	3,185	618	3,185	641	3,190	652	Rheoli parcio oddi ar y strydoedd ar draws yr Awdurdod
Design & Print	1,310	37	1,395	22	1,348	40	Y Stiwdio 'Design and Print' sy'n eiddo i'r Awdurdod
County Supplies	1,680	5	1,752	64	1,713	0	Cyfarpar swyddfa/ waws nwyddau trau sy'n eiddo i'r Awdurdod
Arlwy	4,056	15	4,149	20	4,220	20	Sefydliad arlwy mewnol sy'n darparu prydau bwyd ac arlwy gweithredol
Glanhau	2,791	10	2,810	2	2,870	3	Glanhau adeiladau dinesig, gweinyddol ac ysgolion
Sbwrriel Masnach	1,244	-140	1,456	300	1,449	-102	Casglu gwastraff masnach annomestig
Marchnad Abertawe	1,054	128	1,138	184	1,083	131	Gweithredu marchnad manwerthu fasnachol
Suresprung	1,450	-414	1,491	-326	1,474	-376	Gweithdy dodrefn sy'n eiddo i'r/ yn cael ei reoli gan yr Awdurdod ac sy'n cynnig cyflogaeth a gefnogr
Rheoli Adeiladau	307	-110	384	-104	380	-163	Cyfrif masnachu statudol sy'n cynnwys swyddogaethau rheoli adeiladau.
Cartrefi Gofal Preswyl	1,518	-4,604	1,447	-4,650	1,473	-4,838	Cartrefi gofal i'r heneod a gynhelir gan yr Awdurdod Lleol
Theatr y Grand	2,734	-1,132	2,734	-857	2,803	-1,029	Theatr Ranbarthol a weithreir ac sy'n eiddo i'r Awdurdod
Canolfan Hamdden Abertawe	1,122	-1,823	1,122	-1,877	1,350	-1,835	Canolfan Hamdden Ganolog gan gynnwys y pwll hamdden
Canolfannau Hamdden Cymunedol	1,349	-1,349	1,364	-1,406	1,383	-1,444	Canolfannau Hamdden wedi'u lleoli mewn ysgolion rhanbarthol (4)

* Yn destun Archwiliad

Pennod 4

Gwella Gwasanaethau

Egwyddor arweiniol y Cyngor hwn yw “bod yn sefydliad sy’n gwella’n barhaus ac sy’n darparu gwasanaethau sy’n cwrdd ag anghenion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y gymuned”.

Rydym yn hynod ymwybodol na fydd hyn yn digwydd ar ddamwain. Rhaid i ni weithio ar lefel gorfforaethol ac ar lefel wasanaeth i gyflawni gwelliannau ac i sicrhau yr adeiledir ar y rhain o flwyddyn i flwyddyn. Yn barod, mae’r Cyngor wedi ymgymryd ag adolygiad o’i wasanaethau canolog i gryfhau ei swyddogaethau cefnogi a chynllunio strategol a sicrhau bod mecanweithiau yn gweithredu i fonitro a gwella perfformiad.

Dros y blynyddoedd nesaf, bydd y Cyngor yn parhau i adolygu’r gwasanaethau, dadansoddi perfformiad, gwrando a gweithredu ar farn y gymuned leol a defnyddwyr gwasanaeth a gweithio gyda sefydliadau eraill i ddatblygu Cynllun Cymunedol i Abertawe. Tra bod peth o’r gweithgaredd hwn wedi’i bennu’n Statudol, mae llawer ohono’n cael ei benderfynu’n lleol ac, yn benodol, fel ymateb i farn y defnyddwyr.

Mae’r Bennod hon yn nodi:

- Dadansoddiad statudol sy’n ofynnol gan Raglen Gwella Cymru.
- Amlygu rhaglen Adolygu Gwasanaeth mentrus.
- Trosolwg o ymgynghori cyhoeddus – yn y gorffennol a chynlluniedig.
- Darparu ciplun o’r gwaith angenrheidiol wrth ddatblygu’r Cynllun Cymunedol.
- Trefniadau mewnol i effeithio ar welliant ar bob lefel yn y Cyngor.

Bydd peth o’r gwaith yn cael ei wneud yn ystod 2002/03 a bydd peth yn cael ei gynllunio ar gyfer y dyfodol.

Dadansoddiad ac Aseiad Risg o’r Awdurdod Cyfan

Cyflwyniad

Mae Rhaglen Gwella Cymru, sy’n disodli Gwerth Gorau yng Nghymru, yn gofyn i bob Awdurdod wneud Dadansoddiad ac Aseiad Risg o’r Awdurdod Cyfan, gyda’r canlyniadau’n cael eu cofnodi yng Nghynllun Gwella 2003.

Mae Dadansoddiad o’r Awdurdod Cyfan, a wneir unwaith bob 5 mlynedd, yn aseiad cynhwysfawr o sut mae’r awdurdod yn trin rheoli strategol a gweithredol ei swyddogaethau **corfforaethol** a **gwasanaethau**. Gwneir yr Aseiad Risg yn flynyddol.

Pwrpas gwneud Dadansoddiad ac Aseiad Risg o’r Awdurdod Cyfan yw er mwyn adnabod ardaloedd y mae angen i’r awdurdod ganolbwyntio arnynt er mwyn cyflawni gwelliant, a bydd yn hysbysu ei Raglen Adolygu.

Methodoleg Dadansoddi Lefel Gorfforaethol

Nid yw'r Cynulliad Cenedlaethol yn argymhell un enghraifft ar gyfer yr asesiad, ond mae'n awgrymu rhai offerynnau a allai gael eu defnyddio. Mae'r rhain yn cynnwys:

- EFQM (Model Rhagoriaeth Fusnes),
- Meincnod Llywodraeth Leol,
- CIPFA/SOLACE fframwaith llywodraeth gorfforaethol,
- Archwiliad llywodraeth gorfforaethol y Comisiwn Archwilio.

Mae'r Archwilydd Dosbarth wedi cynhyrchu Diagnostig Gwelliant Corfforaethol, a ddefnyddir i wneud ei asesiad risg a'i waith archwilio mewn cysylltiad â'r Dadansoddiad o'r Awdurdod Cyfan.

Gall yr awdurdodau ddewis cyfuniad o enghreifftiau fel fframwaith. Mae Abertawe wedi penderfynu mabwysiadu ymagwedd hybrid, gan ddefnyddio cryfderau fframwaith Archwiliad Llywodraeth Gorfforaethol y Comisiwn Archwilio, Meincnod Llywodraeth Leol a Diagnostig Gwelliant Corfforaethol yr AD er mwyn sicrhau fod pob tystiolaeth hanfodol yn cael ei chasglu fel rhan o'r dadansoddiad.

Bydd offeryn Diagnostig Gwelliant Corfforaethol yr AD yn darparu sylfaen ar gyfer rheoli prosiect y Dadansoddi, sicrhau fod pob elfen yn cael ei chynnwys, a hyrwyddo ymrwymiad cyfredol yr Archwilydd Dosbarth.

Bydd "Gwiriad Iechyd" Asiantaeth Gwella a Datblygu Cyngor Abertawe, a wnaed y llynedd, yn cyfrannu'n sylweddol at Ddadansoddiad yr Awdurdod Cyfan, yn enwedig oherwydd ei fod yn cynrychioli golwg allanol sy'n ddiudedd.

Methodoleg Dadansoddi Lefel Gwasanaeth

Unwaith eto, mae Offeryn Diagnostig Gwella Gwasanaeth yr AD yn darparu sylfaen dda ar gyfer rheoli prosiect y dadansoddiad hwn a sicrhau bod yr holl feini prawf hanfodol yn cael eu cynnwys.

Mae archwiliadau o ran y fethodoleg orau i'w defnyddio ar y lefel wasanaeth yn dal ar y gweill. Serch hynny, rhoddir ystyriaeth i ymagwedd sy'n seiliedig ar y Model Rhagoriaeth Fusnes. Bydd hefyd yn ddefnyddiol i adrannau wrth wneud Adolygiadau Gwasanaeth a Chynllunio Gweithredu ar gyfer y dyfodol.

Asesiad Risg

Bydd yr Asesiad Risg blynyddol yn archwilio gwir effaith neu effaith bosib unrhyw risg a gofnodwyd ar gleientiaid /cwsmeriaid; risg ariannol; risgiau sy'n codi o'r gyfradd newid/ ansefydlogrwydd: a'r risgiau sy'n codi oherwydd diffyg gwybodaeth. Mae'r categorïau ar gyfer asesu yr un peth â Dadansoddiad yr Awdurdod Cyfan.

Wrth asesu risg, bydd hyd a lled gwasgaru polisiâu a gweithgareddau yn cael ei ystyried. Ar y lefel gorfforaethol, gellir cyflawni hyn drwy ddyfarnu sgôr yn erbyn meini prawf Offeryn Diagnostig Gwelliant yr AD. Bydd yr AD yn ymgymryd ag ymarfer tebyg a bydd y sgoriau'n cael eu cymharu er mwyn ffurfio barn ar y cyd. Bydd hyn yn cynorthwyo i adnabod blaenoriaethau ar gyfer cynllunio gweithredu.

Ar y lefel gwasanaeth, bydd yr ymagwedd a gymerir at asesu risgiau yn dibynnu'n helaeth ar sut rydym yn ymgymryd â dadansoddi lefel gwasanaeth y cyfeirir ato uchod. Mae angen ymgymryd â gwaith yn y maes hwn o hyd ac mae trafodaethau ar y cyd gyda'r AD wedi cychwyn.

Graddfeydd Amser

Mae'r cynllun prosiect manwl yn y broses o gael ei lunio ar hyn o bryd, ond ceir amlinelliad o'r cynllun amser isod.

TASG	Ebrill 2002	Mai 2002	Mehafin 2002	Gorffennaf 2002	Awst 2002	Medi 2002	Hydref 2002	Tachwedd 2002	Rhagfyr 2002	Ionawr 2003	Chwefror 2003	Mawrth 2003	Ebrill 2003	Mai 2003	Mehafin 2003
Dadansoddiad Lefel Gorfforaethol															
Dadansoddiad Lefel Gwasanaeth															
Asesiad Risg Lefel Gorfforaethol															
Asesiad Risg Lefel Gwasanaeth															
Cyhoeddi'r canlyniadau yng Nghynllun Gwella 2003															

Adolygiadau o'r Gwasanaeth

Mae gan adolygiadau o'r gwasanaeth brif nod – cyflawni gwelliannau wrth gyflwyno'r gwasanaeth. Yn Ionawr 2002, cytunodd y Cyngor i raglen o adolygiadau gwasanaeth â'u thema oedd cysylltu'n uniongyrchol ag Amcanion Corfforaethol y Cyngor a hefyd cwrdd â nifer o ganlyniadau dymunol yr agenda genedlaethol. Mae gan rai o'r themâu gynnwys manwl, tra bydd eraill yn cael eu hysbysu a'u datblygu dros amser.

Cytunwyd ar gynnwys pob thema adolygu cyn i'r arweiniad ar Raglen Gwella Cymru gael ei gyhoeddi. Serch hynny, tra bydd hyn yn cael effaith ar amseru rhai adolygiadau, mae'r rhesymau dros eu dewis yn sicr o hyd. Mae'r tabl isod yn disgrifio'n fras y materion i'w trafod o dan bob thema adolygu:

Thema	Cynnwys
Mynediad	Mynediad i wasanaethau – yn cynnwys Materion Cydraddoldeb, yr Iaith Gymraeg, Gofal Cwsmeriaid, E-lywodraeth (Datganiadau IEG). Mynediad i Abertawe – fel lle o gyflogaeth, masnach (gan gynnwys manwerthu), twristiaeth ac adloniant.
Adolygu Asedau	Yn dilyn yr Adolygiad Mynediad, bydd hwn yn hysbysu'r Cyngor am ei ddaliadau tir ac eiddo gweithredol eraill. Yn gyffredinol, rhaid i'r adolygiad hwn ganolbwyntio ar yr hyn sydd gennym ni, yr hyn y mae ei angen arnom, beth allwn ni gael gwared ohono a beth allwn ni wario'r arian arno?
Caffael	Y prif ganlyniadau fydd: <ul style="list-style-type: none"> Eglurder am y math o sefydliad caffael yr ydym yn dymuno bod. Sefydlu strategaeth gorfforaethol, systemau a phrosesau y mae pawb yn eu deall ac yn eu dilyn. Datblygu profion cystadleuol sy'n berthnasol i'r Cyngor hwn
Rheoli Gwastraff	Bydd hyn yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> Ysgubo'r strydoedd Sbwriel Cartrefi a Masnach Gwaredu gwastraff.

Thema	Cynnwys
Canol y Ddinas	Caiff ei ystyried fel ysgogwr adolygiadau eraill ac mae'n rym pwerus ar gyfer adfywio lleol. Bydd hwn yn cael effaith ac yn cael ei hysbysu gan nifer o ardaloedd ac adolygiadau gwasanaeth gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> Mynediad Adolygiad Asedau Twristiaeth a marchnata Rheoli Gwastraff Trwyddedu Cynllunio etc.
Tai	Mae Tai wedi diwygio eu rhaglen nhw i gynnwys themâu. Bydd angen cysylltu gyda'r Adolygiad Asedau a Mynediad.
Dysgu Gydol Oes	Yn cynnwys holl faterion Addysg a gallai hefyd gynnwys rhai materion sy'n cael eu cynnwys o fewn Diwylliant a Hamdden e.e. Amgueddfeydd, Celfyddydau Perfformio etc.
Diwylliant a Hamdden	Parhau i archwilio'r ddarpariaeth a chyflwyniad pob gweithgaredd ddiwylliannol ac adloniadol sy'n cael ei ddarparu neu ei ddylanwadu gan y Cyngor.
Iechyd Cymunedol	Yn hanfodol, mae hwn yn cynnwys yr holl Wasanaethau Cymdeithasol ac Amgylchedd a Iechyd (ac eithrio Rheoli Gwastraff).

Drwy sefydlu "themâu" ar gyfer adolygiadau, bydd hi'n bosib cysylltu adolygiadau llai sy'n seiliedig ar wasanaethau gyda'i gilydd. Bydd hyn yn cynorthwyo ein gweithwyr i ddeall sut maent yn cyfrannu at y darlun mwy ac ar yr un pryd yn annog ymrwymiad mor eang â phosib yn y broses adolygu.

Mae gwaith sylweddol wedi ei wneud yn barod ar gyfer adolygu gweithgareddau o dan y themâu amrywiol. Er enghraifft, mae Adolygu Caffael, Gwasanaethau Canol y Ddinas a Rheoli Gwastraff wedi dechrau'n barod. Yn ystod 2002/03 bydd Adolygiad Mynediad yn dechrau, bydd yr Adran Addysg yn adolygu Mynediad i Ddysgu a bydd Tai yn adolygu sut mae'n ymgymryd â Rheoli stoc tai y Cyngor.

Disgwylir i'r Themâu Adolygu eraill gael eu trafod yn y dyfodol, ond bydd y penderfyniad terfynol am hyn yn digwydd yn sgîl y Dadansoddiad o'r Awdurdod Cyfan a ddisgrifiwyd uchod.

Ymgynghori â defnyddwyr gwasanaeth

Er mwyn i unrhyw welliant fod yn effeithiol, rhaid i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau a ddarperir, ddarparu mewnbwn. I sicrhau fod y Cyngor yn casglu'r safbwyntiau hyn ac yn gweithredu'n briodol, mae'r Cyngor wedi llunio Strategaeth Ymgynghori, Cronfa Ddata Ymgynghori a Chanllawiau Ymgynghori.

Amcanion y strategaeth yw cynorthwyo'r Awdurdod i wneud y pethau canlynol yn effeithiol:

- Cynllunir adnoddau a gwasanaethau yn well er mwyn i gwsmeriaid/ buddiolwyr dderbyn y gwasanaethau a'r datblygiadau y mae eu hangen arnynt ac y maent yn eu gweld fel rhywbeth pwysig
- Blaenoriaethu materion a gwasanaethau tra'n cyflawni gwerth am arian
- Monitro ac adolygu cyflwyno gwasanaethau
- Pennu safonau perfformiad perthnasol a monitro'r rhai a diffinnir gan farn y defnyddwyr
- Annog deialog dwy ffordd rhyngddo a'r cwsmeriaid/ buddiolwyr
- Bod yn ymwybodol o feysydd problem posib cyn iddynt waethygu
- Cwrdd â gofynion deddfwriaethol ar gyfer ymgynghori

Ymgwymerir â'r ymgynghori hwn mewn amrywiaeth eang o ffyrdd er mwyn sicrhau eu bod yn briodol ar gyfer yr amgylchiadau penodol. Rhai o'r dulliau y mae'r Cyngor yn eu defnyddio:

- Panel o ddinasyddion (Lleisiau Abertawe) sy'n ymgymryd â thri i bedwar arolwg y flwyddyn ar faterion corfforaethol ac adrannol gan gynnwys cyflwyno gwasanaeth, polisïau a datblygiadau yn y dyfodol;
- Gwerth Gorau, DPC ac ymgynghoriadau Adolygu ar y Cyd a arweiniwyd gan is-adrannau/ adrannau ond sy'n cael eu cefnogi gan wasanaethau canolog gan gynnwys y Cydlynnydd Rhaglenni Ymgynghori;
- Ymgynghoriadau Gwasanaethau Cwsmeriaid gan is-adrannau/ adrannau, wedi'u cefnogi pan fydd angen gan y cydlynnydd Rhaglenni Ymgynghori;
- Ymgynghoriadau unigryw neu arbennig fel y rhai ar gyfer Moderneiddio Strwythurau Llywodraeth Leol ac Wythnos Democratiaeth Leol
- Mae ymgynghori â phartneriaid fel yr Heddlu, Cyngorau Cymunedol yr Awdurdod Iechyd yn cael ei gefnogi gan y Cydlynnydd Rhaglenni Ymgynghori

Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae'r pynciau ymgynghori wedi cynnwys: Canolfannau Hamdden a chyfleusterau eraill, Safonau Masnach, Trwyddedu, Rheoli Traffig, IEG, moderneiddio llywodraeth leol, gwasanaethau cwsmeriaid, yr Iaith Gymraeg, materion Canol y Ddinas, ymwelwyr â Gŵyr, cadwraeth natur, materion tenantiaeth, digwyddiadau arbenigol, gwasanaethau i'r henoed, etc.

Yn ystod y 12-18 mis nesaf, bydd yr ymgynghoriadau a wneir yn cynnwys materion sy'n ymwneud â Gwasanaethau Cwsmeriaid a Mynediad i'r Gwasanaethau, dyfodol Canol y

Ddinas a Chynllun Corfforaethol y Cyngor. Bydd arolwg tenantiaeth wyneb yn wyneb yn dechrau ym mis Mehefin, trefnir ymgynghoriadau digwyddiadau arbennig, yn ogystal ag ymgynghori ar benrhyn Gŵyr a mentrau Tir Cyffredin fel rhan o Wythnos Democratiaeth Leol.

Rydym yn datblygu rhaglen ar gyfer gwelediad, hysbysu ac ymgynghori fel rhan o broses y Cynllun Cymunedol y gobeithir y bydd yn dechrau yn ddiweddarach eleni. Bydd Lleisiau Abertawe yn cael ei ddefnyddio ar gyfer safbwynt cyffredinol oddi wrth drigolion ond disgwylir ymgymryd ag amrywiaeth o dulliau ymgynghori. Gwelir rhagor o hyn isod.

Cynllun Cymunedol i Abertawe

Bydd y Cynllun Cymunedol yn pennu Gweledigaeth i Abertawe a fydd yn cynnwys y 10-15 mlynedd nesaf. Nid trafod gwasanaethau'r llywodraeth leol yn unig y mae'n ei wneud; mae'n llawer mwy eang na hynny. Bwriad y Cynllun yw sicrhau bod iechyd, lles cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yr holl ddinasyddion yn cael eu gwella.

Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb statudol dros sicrhau bod y Cynllun Cymunedol yn cael ei lunio a thros fonitro ei weithredu. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gyda chymunedau lleol a phartneriaid mewn sefydliadau sector cyhoeddus eraill a'r sectorau preifat a gwirfoddol.

Mae'r dyddiad cau gwreiddiol ar gyfer llunio Cynllun Cymunedol wedi newid o 2003 i 2004. Disgwylir i awdurdodau lleol gael 4 darn allweddol mewn grym erbyn yr etholiad nesaf yn 2004:

- Gweledigaeth hir dymor ar gyfer yr ardal sy'n canolbwyntio ar y canlyniadau i'w cyflawni
- Cynllun gweithredu sy'n nodi blaenoriaethau a gweithgareddau tymor byr (y cerrig rhyd) a fydd yn cyfrannu at gyflawni'r weledigaeth hir dymor;
- Ymrwymiad a rennir i weithredu'r cynllun gweithredu a'r cynigion i wneud hynny;
- Trefniadau ar gyfer monitro gweithredu'r cynllun gweithredu, ac ar gyfer adolygu'r strategaeth gymunedol yn gyson.

Mae'r gwaith paratoi gan y Cyngor wedi bod yn mynd yn ei flaen. Cynhaliwyd cyfarfodydd gydag asiantaethau partner allweddol fel ADC, yr Heddlu, Iechyd, colegau lleol, y sector gwirfoddol etc yn rheolaidd.

Cynhaliwyd cynhadledd y ddinas gyfan yn ddiweddar, "Bydd Ddoeth, Bydd Goeth, Bydd Iach" ar 9 Mai ac roedd ystod eang o asiantaethau yn bresennol – cymdeithasau tai lleol, iechyd, addysg, cludiant busnesau lleol, asiantaeth yr amgylchedd a swyddogion o Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Cynrychiolwyd cymunedau â diddordeb hefyd gan grwpiau ffydd; aelodau o Fforwm y Bobl Ifanc, y Cymunedau Ethnig a grwpiau gwirfoddol lleol.

Roedd dau brif amcan gan y gynhadledd:

1. Cynyddu ymwybyddiaeth o'r broses cynllunio cymunedol a rôl Arweiniol y Cyngor a'r Cynghorwyr ac
2. Ehangu'r ddadl i gynnwys nifer o faterion pwysig fel sefydlu Partneriaeth Strategol Leol; ymwybyddiaeth mai efallai drwy fforymau lleol y mae'r ffordd ymlaen i ddatblygu ymrwymiad cymunedau lleol a; chonsensws ar y themâu cynllunio cymunedol a nodwyd.

Rhoddodd y gynhadledd gonsensws eang i'r themâu Cynllunio Cymunedol drafft – Ansawdd Bywyd, Dysgu, Ffyniant, Iechyd, Lles, Dinasyddiaeth a Chyfathrebu. Bydd y rhain nawr yn darparu ffocws ar gyfer datblygu strategaeth gymunedol a datblygu'r broses gynllunio gymunedol.

Y cerrig milltir eraill yn y broses gynllunio gymunedol yw –

- **Erbyn Gorffennaf 2002** – mabwysiadu model/ strwythurau mewnol a chytuno ar rolau a chyfrifoldebau.
- **Erbyn Hydref 2002** – sefydlu Partneriaeth Strategol Leol
- **Erbyn Hydref 2002** – cynnwys partneriaethau ehangach a datblygu model/ strwythurau allanol
- **Erbyn Hydref 2002** – adnabod gweithrediadau, cyfrifoldebau ac ymrwymadau allweddol.
- **Hydref 2002 - Mawrth 2003** – Cytuno a gweithredu ar raglen o 'welediad' cymunedol
- **Erbyn Mawrth 2003** – Cynllun Strategaeth Gymunedol a Chynllun Gweithredu Drafft
- **Mawrth 2003 - Rhagfyr 2003** – Gweithredu rhaglen o wybodaeth ac ymgynghori
- **Erbyn Mawrth 2004** – Gorffen y Cynllun Strategaeth Gymunedol a Chynllun Gweithredu
- **Mawrth 2004 - ymlaen** gweithredu trefniadau monitro ac adolygu.

Mae portffolio cabinet newydd wedi cael ei ddynodi i gymryd cyfrifoldeb gwleidyddol am bob agwedd o weithgareddau adfywio cymunedol a chynllunio cymunedol y Cyngor

Yn ychwanegol, mae'r newidiadau strwythurol diweddar o fewn adrannau'r Prif Weithredwr /Gwasanaethau Canolog wedi darparu ffocws newydd i'r gwaith hwn a bydd swyddi newydd y Dirprwy Brif Weithredwr a Phennaeth Cynllunio Strategol yn darparu cyfeiriad a chefnogaeth strategol a rheoli perfformiad.

Rheoli Perfformiad

Rhan allweddol o gyflawni gwelliant mewn gwasanaethau yw mesur y perfformiad ar hyn o bryd yn effeithiol, sydd wedyn yn cael ei drosglwyddo i weithrediadau ar y llawr er mwyn datrys y problemau. Mae hyn yn haws dweud na gwneud, mae'r Cyngor yn y broses o ailddatblygu ymagweddau cynllunio corfforaethol a rheoli perfformiad.

Er bod llawer wedi'i gyflawni yn barod a arweiniodd at y Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2002-2004, mae newid hyn yn weithredu effeithiol yn awr yn flaenoriaeth. Bydd hyn yn cynnwys pob adran yn llunio Cynlluniau Cyflwyno Gwasanaeth a Chytundebau Cyflwyno Adrannau gyda phob un yn cynnwys mesurau a thargedau perfformiad. Yna bydd y rhain yn cael eu newid yn Gynlluniau Tîm a thargedau'n cael eu cyflwyno gan dimau a/neu unigolion.

Ymgymerir â monitro perfformiad yn erbyn targedau ar lefel gwasanaeth a chorfforaethol. Dros y ddwy flynedd nesaf, bydd systemau'n cael eu datblygu a'u gwella i sicrhau bod mesur perfformiad mor awtomatig â hanfodol ag anadlu a bod y wybodaeth yn cael ei bwydo mor gyflym â phosib i'r rhai lle mae ei hangen fwyaf. Yn enwedig, bydd hyn yn cynnwys trosglwyddo gwybodaeth perfformiad perthnasol i reolwyr blaen ac i aelodau o'u timau.

Cymeradwyo

Y gweithwyr unigol sydd yn rheng flaen cyflwyno gwasanaeth sydd bwysicaf i'r Cyngor. Er mwyn sicrhau eu bod yn deall yn llwyr beth sy'n ofynnol ohonynt a bod ganddynt y cyfarpar priodol i ymgymryd â rôl eu swyddi, mae'r Cyngor yn cyflwyno Cynllun Cymeradwyo dros y 2 flynedd nesaf a fydd yn cael ei gyflwyno i bob gweithiwr.

Bydd hwn yn rhoi cyfle i bob gweithiwr ddeall yn llawn eu cyfraniad tuag at Amcanion Corfforaethol y Cyngor, pa mor dda y maent yn perfformio a pha sgiliau a dysgu ychwanegol y mae angen iddynt gael. Y peth pwysicaf yw y bydd yn annog deialog rheolaidd a ffurfiol rhwng y rheolwyr a'u timau.

Pennod 5

Gwasanaethau a adolygwyd yn 2000/01

Yn ystod y flwyddyn lawn gyntaf hon o drefn Gwerth Gorau, ymgwymerodd y Cyngor ag adolygiadau mewn dros 20 o feysydd gwasanaeth. Bu'r adolygiadau hyn yn cynnwys gwasanaethau a oedd yn amrywio mewn gwariant blynyddol o lai na £50,000 i dros £7m y flwyddyn ac yn cyflogi rhwng 2 a 1200 o weithwyr.

Roedd yr adolygiadau yn cynrychioli trawsdoriad da o wasanaethau'r Cyngor a hefyd yn darparu sail dda ar gyfer dysgu beth oedd y ffordd orau o wneud pob adolygiad. Mae'r gwersi a ddysgwyd wedi cynorthwyo i hysbysu'r Arweiniad Adolygu Gwerth Gorau a ddefnyddiwyd yn gorfforaethol.

O'r holl adolygiadau a wnaed, dewiswyd nifer ohonynt gan Arolygwyr y Comisiwn Archwilio, Arolygwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol ac Estyn i'w harolygu. Mae un o'r adolygiadau yn cael ei arolygu ar hyn o bryd (Gwrthloddi) tra bod rhai o'r lleill wedi cael eu harolygu yn gynnar yn 2002.

Er mwyn dangos y gweithredu a gymerwyd ers cwblhau'r adolygiadau hyn, mae'r bennod hon yn nodi barn yr Arolygwyr ar saith o'r adolygiadau (pan fyddant ar gael) ac yn disgrifio'n fras y camau a gymerwyd ar gyfer gwella. Gan fod amserau cwblhau adolygiadau yn amrywio, mae'r datblygiad hefyd wedi bod yn amrywiol, ond mae pob un ohonynt wedi ceisio gweithredu er mwyn gwella'r gwasanaethau.

Ar gyfer pob adolygiad, bydd y canlynol yn amlinellu:

- Y camau pwysig a gymerwyd er mwyn gwella;
- Y mesurau perfformiad a ddefnyddiwyd i ddangos newid mewn lefelau gwasanaeth neu welliant arall;
- Ffactorau allanol a allai effeithio ar berfformiad gwasanaeth.

Gwasanaethau Pensaernïol (Adran Gwasanaethau Technegol)Barn yr Arolygwyr

Gwasanaeth gweddol, disgwyliadau addawol ar gyfer gwella

Manylion y Gwasanaeth

- Cost net £680,200
- Cyflogi 20 o staff
- Darparu gwasanaeth dylunio amlddisgyblaeth i adrannau eraill o fewn yr Awdurdod yn ogystal ag asiantaethau allanol fel yr Awdurdod Tân.

Camau pwysig a gymerwyd i wella'r gwasanaeth

- Mae swyddogion DLO yn rhan o'r gwaith cynllunio a rhaglenni cynnar wrth ddylunio ar y cyd gyda'r Adrannau eraill a'r Grŵp Dylunio. Mae hyblygrwydd dulliau gweithio gyda DLO wedi cael ei annog, ynghyd â chyfathrebu gwell a gweithio ar y cyd wrth gyflwyno gofynion cynnal ac adeiladu'r Awdurdod.
- Mae ymgynghorwyr allanol yn cael eu cyflogi i ddelio â phwysau arbennig o drwm.
- Ar hyn o bryd, mae blwch offer Rheoli Perfformiad yn cael ei ddylunio a fydd yn cynorthwyo i wneud penderfyniadau deallus ac yn galluogi mesur perfformiad mewn ffordd ystyrlon.
- Cyhoeddi'r Ddogfen Wybodaeth ar y Gwasanaeth Rheoli Ynni i'r adrannau eraill
- 30 adeilad ysgol ychwanegol wedi'u cynnwys ar y system Monitro Ynni.

Mesurau Perfformiad

- Adolygu DP Meincnodi CLAW ym Medi 2002.
- Mae'r adeiladau ysgol ychwanegol ar y system Monitro Ynni wedi arwain at gynilion mesuradwy pellach o ran costau'r prif gyflenwadau

Ffactorau Allanol*Grŵp Dylunio*

Bydd y ffactorau allanol canlynol yn ymestyn y cyfnod dylunio ar gyfer prosiectau unigol:

- Rheoliadau Adeiladu, Rhan L2 – Arbed Tanwydd a Phŵer
- Polisi Cynaliadwyedd yr Awdurdod

Uned Ynni Corfforaethol

Bydd cefnogi proses Gynllunio Rheoli Asedau'r Cyngor yn effeithio ar rôl yr Uned Ynni Corfforaethol, er mwyn lleihau treuliant ynni a dŵr yn uniongyrchol mewn llefydd Corfforaethol.

Glanhau ac Arlwyo (Adran Addysg)Barn yr Arolygwyr

Er bod gan y gwasanaethau un rheolwr, cawsant eu harolygu ar wahân.

Glanhau: Gwasanaeth da, disgwyliadau addawol ar gyfer gwella.

Arlwyo: Gwasanaeth da, disgwyliadau addawol ar gyfer gwella.

Manylion y gwasanaeth (Arlwyo a Glanhau)

- Trosiant o £7m
- Yn cyflogi 1,200 o bobl
- Yn arlwyo ar gyfer 113 o safleoedd ac yn glanhau mewn 220 o safleoedd gan gynnwys ysgolion ac adeiladau eraill y Cyngor

Camau pwysig a gymerwyd i wella'r gwasanaeth*Glanhau*

- Adolygiad llawn o'r deunyddiau glanhau a'r fethodoleg er mwyn gwella ansawdd cyffredinol y gwasanaeth a lechyd a Diogelwch.

Arlwyo

- Datblygu ceginau ar y safle mewn 5 ysgol gynradd arall felly'n lleihau'r angen am gludo prydau bwyd ac yn darparu cyfleoedd am wasanaeth brecwast ac ar ôl ysgol.
- Arbrofi gyda dulliau newydd o gasglu arian cinio mewn dwy ysgol gynradd gan ddefnyddio technoleg fodern i arbed amser i'r ysgrifenyddes a chynnig cyfle i'r disgyblion dalu am eu prydau'n ddyddiol.
- Cyfranogi ac ymrwmo i bob Cyngor Ysgol er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o Fwyta'n Iach ac ymgynghori â'r plant. Mae thema i bob hyrwyddiad sef "Bwyta'n Fwy Iach".

Mesurau Perfformiad

- Cynnydd o 2% yn y nifer sy'n bwyta Prydau Ysgol yn yr ysgolion uwchradd i 50%.
- Cynnydd o 2% yn y nifer sy'n bwyta Prydau Ysgol yn yr ysgolion cynradd i 46%.
- Mae Meincnodau APSE yn dangos bod y Gwasanaeth Glanhau yn perfformio uwchlaw'r cyfartaledd ar bob meincnod.
- Mae'r Canlyniadau Prynu Cronnol yn dangos cynnydd yn y defnydd o ffrwythau ffres a chynnyrch mwy iach.

Ffactorau Allanol

Dim

Strategaeth Gwrthlodi (Adran y Prif Weithredwr)Barn yr Arolygwyr

Dechreuodd yr arolwg ym mis Mai 2002.

Manylion y gwasanaeth:

- Cost net: £27,800
- 2 weithiwr
- Nodau'r tîm yw:
 - i. Gweithio gyda phobl sy'n mynd i'r afael â thlodi lleol fel y gallant wneud mwy o wahaniaeth.
 - ii. Cryfhau a chefnogi gwaith gwrthlodi ac adfywio cymunedol lleol
 - iii. Cefnogi gwelliant yng ngwasanaethau'r cyngor ar gyfer ein trigolion sydd fwyaf dan anfantais.

Camau pwysig a gymerwyd i wella'r gwasanaeth

- Gwneud ein trefniadau cyllido'n rhai parhaol gan sicrhau bod y tîm gwrthlodi yn gallu cynllunio ar gyfer yr hir dymor
- Datblygu nodau ac amcanion mwy clir a defnyddiol.
- Cyflwyno strwythur rheoli perfformiad sy'n cynnwys proses cynllunio gweithredu blynyddol, briffio aelodau'r Cabinet yn rheolaidd, proses ymgynghori flynyddol a chynhyrchu adroddiad blynyddol. Mae'r strwythur hwn hefyd yn gwneud gwerthuso perfformiad yn bosib drwy ddefnyddio dangosyddion perfformiad sy'n seiliedig ar arolwg a datblygu Meincnod ar gyfer yr adrannau.

Mesurau Perfformiad

Rydym wedi cyflwyno nifer o ddangosyddion arolwg i fesur pa mor dda rydym yn llwyddo. Yn ddiweddar, rydym wedi cwblhau ein hail arolwg yn dilyn yr arolwg a wnaed fel rhan o'r Adolygiad Gwerth Gorau.

Mae'r gwelliannau allweddol yn cynnwys:

- Nifer o atebion i'r arolwg wedi cynyddu o 72 i 196
- Cyfran o'r ymatebwyr a oedd yn cytuno bod nodau'r tîm gwrthlodi yn gywir ar gyfer Abertawe wedi cynyddu o 74% i 95%
- Cyfran o'r buddiolwyr sydd â rhyw syniad o'n holl weithgareddau wedi cynyddu o 24% i 87%
- Cyfran o'r buddiolwyr sy'n cytuno bod y tîm gwrthlodi wedi cynyddu gallu eu sefydliadau i fynd i'r afael â thlodi ac eithrio cymdeithasol wedi cynyddu o 64% i 74%
- Ar hyn o bryd, cesglir data ar gyfer meincnodau Adrannol.

Ffactorau Allanol

Galluogodd cyllid Cymunedau Cynaliadwy oddi wrth Gynulliad Cenedlaethol ni i weithredu nifer o fentrau sy'n seiliedig yn y gymuned dan y cynllun 'y wybodaeth' yn ystod 2001/02.

Adeiladau Cymunedol (Adran Diwylliant a Hamdden)Barn Arolygwyr

Gwasanaeth gweddol. Disgwyliadau ansicr ar gyfer gwelliant.

Manylion y gwasanaeth

- Cost net o £1,335,000
- Mae'n cyflogi 6 o bobl a mwy na 400 o wirfoddolwyr
- Mae'n darparu 35 canolfan gymunedol ac 14 pafiliwn ar gyfer yr henoed, sy'n cael eu rhedeg gan bwyllgorau gwirfoddol ac yn cael eu cefnogi gan y staff, er mwyn sicrhau bod y cyfleusterau yn ateb anghenion y gymuned.

Camau pwysig a gymerwyd i wella'r gwasanaeth

- Cynhaliwyd digwyddiad Ymgynghori/ Adborth Gwerth Gorau ("Y Ffordd Ymlaen") ar gyfer gwirfoddolwyr pob canolfan gymunedol yn Ebrill 2002. Bu'r cyfarfod yn trafod Adroddiad yr Arolygwyr (roedd y rhan fwyaf o'r gwirfoddolwyr yn teimlo ei fod yn ddryslyd ac yn amwys) gan roi'r cyfle i bawb leisio barn unwaith eto.
- Bydd 4 digwyddiad hyfforddi/ ymgynghori ar gyfer ein gwirfoddolwyr yn 2002-03. Derbyniwyd y newyddion hwn yn frwdfrydig gan y gwirfoddolwyr.
- Cychwynwyd ymgynghori ar Bafiliynau Ein Henoed ers mis Chwefror a bydd adroddiad yn cael ei lunio ym Mehefin 2002. Bydd hysbyseb canolfan gymunedol gyffredinol yn cael ei gosod yng Nghyfeirlyfr Thompson eleni er mwyn hysbysu pobl o bwrpas a swyddogaeth y Canolfannau Cymunedol.
- Mae Cynorthwyr Adloniant Cymunedol nawr yn gweithio'n fwy hyblyg er mwyn gallu treulio rhagor o amser yn y gymuned. Mae hyn yn cynnwys cysylltu â Chydlynwyr Cymunedau'n Gyntaf a chreu Prosiect Cymunedau'n Gyntaf ym Mhenlan.
- Mae gweithdrefnau cofnodi cynnal newydd yn cael eu gweithredu ym mis Mai 2002.
- Bydd person cynnal a chadw penodol yn dechrau gweithio yn fuan.

Mesurau Perfformiad

Fel nododd yr arolygwyr, nid oes unrhyw ddangosyddion perfformiad lleol na chenedlaethol yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol. Mae Canolfannau Cymunedol yn y bôn yn ffenomenon leol a bydd eu gweithredu yn amrywio yn ôl y bwrdd rheoli lleol.

Serch hynny, mae'r Cyngor yn gweithio gyda Phennaeth Rhwydweithiau Perfformiad APSE, i ddatblygu'n ystyrlon.

Ffactorau Allanol

Gall y sylw cynyddol i ofynion deddfwriaethol fod yn frawychus i'r gwirfoddolwyr ac rydym yn gofalu peidio â gorlwytho'r unigolion ymroddedig hyn sy'n rhoi o'u hamser i redeg eu canolfannau lleol.

Er bod y broses GG wedi bod yn un gadarnhaol, heriol a buddiol, roedd yr arolwg yn

brofiad negyddol yn bennaf i'r gwirfoddolwyr sy'n rhedeg y Canolfannau Cymunedol. Roeddent yn ei chael hi'n anodd deall argymhellion yr Arolygwyr ac i ddechrau roeddent yn siomedig o'r profiad. Serch hynny, maent yn "brwydro'n ôl" a gyda chymorth staff y Cyngor sy'n cymryd rhan maent yn benderfynol o adeiladu ar y sylfaen gadarn sy'n bodoli'n barod.

Datblygu Chwaraeon (Adran Diwylliant a Hamdden)

Barn yr Arolygwyr

Gwasanaeth da. Annhebygol o wella

Manylion y gwasanaeth

- Cost net o £191,000
- Cyflogi 9 gweithiwr llawn amser ac 1 gweithiwr rhan amser. Mae'n defnyddio hyd at 30 o hyfforddwyr pan fydd angen. Hefyd mae'n dal 1 swydd ar ran Cymdeithas Pêl-droed Cymru.
- Mae'n gyfrifol am gychwyn, hyrwyddo a datblygu ystod eang o gyfleoedd chwaraeon hygyrch, yn enwedig ar gyfer plant oed ysgol a grwpiau targed penodol.

Camau pwysig a gymerwyd i wella'r gwasanaeth

- Llunio adroddiad i nodi'r adnoddau y mae eu hangen i wella'r ddarpariaeth o barciau Sglefrio, traciau BMX ac ardaloedd aml-gwrt mewn Parciau dethol.
- Dogfen strategaeth mewn cydweithrediad ag Addysg, fel ymateb i wahoddiad Cyngor Chwaraeon Cymru i dderbyn cyllid o'r Gronfa Cyfleoedd Newydd ar gyfer darparu cyfleusterau chwaraeon ysgol/ cymuned ychwanegol.
- Cyfarfodydd ffurfiol gyda'r adran Addysg, y Gwasanaeth Ieuenctid a buddiolwyr eraill gyda'r nod o ddatblygu cynllun cyflwyno gwasanaeth cyffredinol er mwyn gwella darpariaeth chwaraeon i leuenctid. Cymeradwyo darpariaeth chwaraeon y gwasanaeth ieuenctid presennol a chymharu â'r ddarpariaeth Datblygu Chwaraeon presennol. Cynlluniwyd rhaglen o weithgareddau haf ar gyfer 2002.
- Gwella mynediad i Ddatblygu Chwaraeon i ysgolion gyda'r nod o ddefnyddio arbenigedd Datblygu Chwaraeon i gynyddu a gwella darpariaeth chwaraeon ysgolion. Ymateb ar y cyd rhwng Addysg/ Diwylliant a Hamdden i'r Cyngor ar adroddiad y Gweithgor ar addysg gorfforol a chwaraeon ysgol.
- Cyllido partner pellach oddi wrth Addysg ar gyfer swyddi Datblygu Chwaraeon.
- Datblygu Gymnasteg gwell yn yr awdurdod drwy: gyfuno rheolwr y Ganolfan Gymnasteg / swyddog datblygu gymnasteg, statws Canolfan o Ragoriaeth, Cyngor Chwaraeon Cymru a Chymdeithas Gymnasteg Cymru sy'n ariannu'r elfen hyfforddi o swydd y Swyddog Datblygu Gymnasteg, gwaith allgymorth ychwanegol.
- Rhagor o arian oddi wrth Undeb Rygbi Cymru ar gyfer y Swydd Datblygu Rygbi.
- Gwneud y swydd Datblygu Pêl-droed yn swydd lawn amser, mewn cydweithrediad â Chymdeithas Pêl-droed Cymru.

- Gwneud y swydd Datblygu Chwaraeon i'r Anabl yn swydd lawn amser, mewn cydweithrediad â Chyngor Chwaraeon Cymru a chyllid arall (?).
- Cynllun marchnata a hyrwyddo i gynyddu ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth.

Mesurau Perfformiad

- Mae datblygu a lleoli ystod o wasanaethau yn y Parciau yn cael eu hadlewyrchu yn y cynnydd yn y defnydd targed o Barciau i 5,500.
- Disgwylir i'r nifer sy'n mynychu addysg hyfforddwyr gynyddu o 8.3%
- Amcangyfrifir y bydd y rhaglen o ddigwyddiadau yn cynyddu i 5.5%
- Bydd y cynnydd mewn ymwybyddiaeth yn effeithio'n uniongyrchol ar foddhad y cwsmer a'r DP perthynol.
- Mae cyllido allanol nawr yn cael ei fesur yn flynyddol. Cafwyd £166,916 yn 2001/02.

Ffactorau Allanol

- Y fantais fwyaf i'r gwasanaeth oedd diogelu arian sydd wedi caniatáu cynnydd sylweddol yn oriau swyddogion sy'n ymroddedig i chwaraeon yn yr ardal.
- Mae ymgynghori parhaol â Chyngor Chwaraeon Cymru wedi arwain at strwythur cyllido llai anhyblyg a mwy priodol sydd wedi caniatáu mynediad i £3.4 m o'r 'Gronfa Cyfleoedd Newydd' ar gyfer darparu cyfleusterau chwaraeon/ ysgol ychwanegol.

Uned Cefnogi Cymdogaeth (Adran Tai)

Barn yr Arolygwyr

Gwasanaeth gweddol. Annhebygol o wella.

Manylion y gwasanaeth

- Cost net £1,350,637.
- Cyflogi 35 o bobl.
- Darparu gwasanaeth atebol 24 awr i holl denantiaid Dinas a Sir Abertawe, i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, gorfodi diogelwch ar eiddo, a darparu presenoldeb landlord 24 awr ar stadau.

Camau pwysig a gymerwyd i wella'r gwasanaeth

Teimlodd y Cyngor bod barn yr arolygwr yn annheg. Mae'r gweithrediadau a restrir isod yn dangos yr ymrwymiad tuag at ddatblygu ymhellach wasanaeth sydd wedi cael ei ganmol gan y rhai sy'n dibynnu arno.

- Diogelwyd arian er mwyn cyflogi tri Warden Cymunedol rhan amser yn Nhalycopa (Stad Tai Cyngor) a'r Hafod (Ardal Dai Preifat –Strategaeth Ardal Adnewyddu Cymdogaeth yn gweithredu)

- Cafwyd arian oddi wrth Lywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer cyfleusterau CCTV ychwanegol.
 - 17 Camera ychwanegol ar Stadau Tai Cyngor
 - Ystafell reoli CCTV integredig o Ganol y Ddinas a Monitro Stadau Tai y Cyngor.
- Arbedwyd tua £140,000 y flwyddyn drwy brynu Larymau Radio yn uniongyrchol a oedd gynt yn cael eu rhenti.

Mesurau Perfformiad

Nid oes dangosyddion perfformiad cenedlaethol ar gyfer y Gwasanaeth felly cyflwynwyd mesurau lleol pellach sy'n adlewyrchu barn y gymuned yn ogystal â darparu rhagor o ddata rheoli. Mae hyn yn cynnwys:

DP lleol sy'n dangos tueddiad tuag at wella:

- Ymateb o fewn 20 munud pan fydd y Larymau Radio yn canu mewn eiddo gwag. Roedd y canlyniadau cyn yr adolygiad yn dangos bod hyn wedi'i gyflawni ar 83% o'r achlysuron. Erbyn hyn mae hyn wedi cynyddu i 91%
- Cyflwynwyd DP newydd yng Ngorffennaf 2001
 - Nifer o doriadau / toriadau a ymgeisiwyd
 - Nifer o arolygiadau rheoli Ansawdd
 - Nifer o gamerâu cudd –cefnogi tystion
 - Nifer o weithrediadau cudd
 - Nifer o Ffurflenni Cofnodi Digwyddiadau
 - Nifer o Ffurflenni Cyfeirio Stadau
- Cyflwynwyd DP newydd ym mis Ebrill 2002
 - Nifer y larymau a osodwyd /tynnwyd o fewn 24 awr o'r cais
 - Nifer y patrolau a ychwanegwyd o fewn 1 diwrnod gwaith o'r cais
 - Nifer o weithrediadau cudd. Casglwyd tystiolaeth y gellir ei defnyddio
 - Nifer o weithiau y mae staff wedi gweithredu fel tystion proffesiynol mewn achosion cyfreithiol

Ffactorau Cyfreithiol

Ymholiadau oddi wrth asiantaeth allanol er mwyn cyflenwi gwasanaethau NSU e.e: Darparu patrolau ar stadau LCC.

Cynllun Tenantiaethau wedi'u Dodrefnu (Adran Tai)

Barn yr Arolygwr

Gwasanaeth gweddol. Annhebygol o wella.

Manylion y Gwasanaeth

Y gyllideb ar gyfer 2000/2001 oedd £177,000 – hunan ariannu o daliadau gwasanaeth. Mae'n cyflogi 5 o bobl. Mae'n darparu pecynnau dodrefn ar gyfer tenantiaid sy'n cael trafferth prynu eu celfi eu hunain.

Camau pwysig a gymerwyd i wella'r gwasanaeth

I wella effeithiolrwydd y gwasanaeth, nid yw'r Cydlynwyr Dodrefn yn mynd gyda gyrwyr/dosbarthwyr y dodrefn i gartrefi newydd y tenantiaid erbyn hyn. Mae'r olaf yn trefnu i'r tenant arwyddo'r rhestr ddsbarthu pan fyddant yn dosbarthu'r dodrefn. Hefyd, mae'r Swyddogion Tai o'r Swyddfeydd Rhanbarthol nawr yn trefnu i atodiad y cytundeb tenantiaeth gael ei ddarllen a'i lofnodi gan y tenant.

Mae'r newidiadau hyn yn caniatáu i'r staff sy'n cydlynu'r gwasanaeth dreulio rhagor o amser ar adennill dyled ac archwiliadau.

Mesurau perfformiad

Nid oes mesurau perfformiad cenedlaethol ar gael ar gyfer y gwasanaeth. Felly mae'r adolygiad yn argymhell y dylai targedau perfformiad a systemau ar gyfer monitro cyflawni'r amcanion gael eu creu e.e.

- Yr effaith ar y nifer o ardaloedd galw isel
- Y gyfran o denantiaid newydd a benderfynodd symud i eiddo galw isel oherwydd argaeledd Tenantiaeth wedi'i Dodrefnu'n Rhannol.
- Cyflawni sylfaen tenantiaeth ehangach, yn enwedig mewn ardaloedd galw isel.
- Cynaliadwyedd TDR mewn cymhariaeth â thenantiaethau heb eu dodrefnu.
- Targedau ar gyfer y gyfran o becynnau dodrefn a ddsbarthwyd o fewn wythnos o gychwyn y denantiaeth.
- Targedau ar gyfer arolygu cyflwr y dodrefn a lleihau colledion dodrefn.
- Targedau ar gyfer adennill dyled.

Ffactorau Allanol

Rhaid i'r cynllun gael ei gysylltu â'r cynllun dodrefn a roddwyd yn ogystal â chynlluniau adnoddau dodrefn elusennol eraill sy'n gweithredu yn y ddinas, fel y gall yr ymgeiswyr gael eu hysbysu am yr opsiynau sydd ar gael ar gyfer darparu dodrefn.

Gwasanaethau Llety i Blant (Adran y Gwasanaethau Cymdeithasol)Barn yr Arolygwr

Aros am ganlyniad terfynol yr Arolygiad

Manylion y Gwasanaeth

Cost net £3.5m

Mae'n cyflogi 55 o bobl, a 94 o ofalwyr maeth

Mae'n gofalu am blant a phobl ifanc sydd angen llety a chefnogaeth wahanol.

Camau pwysig a gymerwyd i wella'r gwasanaeth

- Adolygu lefelau staffio mewn llety preswyl, a'r camau a gymerwyd i wella cadw staff e.e. hyfforddiant gwell, goruchwyliaeth reolaidd
- Cyflwyno 2 lefel ychwanegol o lefelau staffio, un rheolwr Preswyl a 6 swydd isafswm oriau sy'n gallu gweithio 37 awr yr wythnos, heb grynhoi goramser.
- Ymgyrch recriwtio am ofalwyr maeth "Allech chi faethu?"
- Cwblhau diweddariad a chreu deunydd recriwtio proffesiynol gyda chyllideb recriwtio gynyddol a ddyrannwyd.
- Ailstrwythuro'r Tîm Lleoli Teuluoedd, cyflwyno swyddogion recriwtio
- Cyflwyno taliadau sy'n seiliedig ar sgiliau gofalwyr maeth, gyda rhaglenni hyfforddi i ddatblygu eu sgiliau.
- Gwell eglurhad am y llwybrau i gael llety.
- Mae angen gwaith papur priodol, adolygiadau wedi'u cwblhau ar amser, ac mae ansawdd y wybodaeth a ddarparwyd wedi gwella.
- Ymgynghori gwell gyda'r gofalwyr maeth, y plant, y bobl ifanc a'r staff, drwy amrywiaeth o ffyrdd.
- Nawr mae'r cyllidebau'n cael eu rheoli'n fanwl.
- Sicrheir bod taliadau ar gyfer gofalwyr Maeth yn cael eu hadolygu nawr yn flynyddol yn unol â chyfraddau CGMG
- Mae gwybodaeth reoli nawr ar gael i fesur defnydd a galw, a chynorthwyo gyda chynllunio hir dymor y gwasanaeth.
- Datblygiad da i weithio ar y cyd gydag Addysg, lechyd yn ogystal â derbyn y syniad o Fagu Plant yn Gorfforaethol gan yr Awdurdod cyfan.

Mesurau Perfformiad

- Lleihad sylweddol yng nghostau goramser y staff ar gyfer gwasanaethau preswyl
- 10% o gynnydd mewn Gofalwyr Maeth
- Lleihad dramatig mewn derbyniadau argyfwng yn ystod y nos
- Gwybodaeth ffeil achos ddibynadwy, ddiweddaraf ar gael
- Tanwario o ran cyllideb am y tro cyntaf ers ALIL
- Rheolir y niferoedd mewn llety preswyl a chartrefi gofal maeth nawr ar lefelau cofrestredig.

- Mae mwy o blant sy'n derbyn gofal yn derbyn addysg.

Dim effaith ar y DP cenedlaethol hyd yn hyn (DPGG 49, 50, 51)

Serch hynny, o ran 2 DP newydd (lleoliadau cyntaf yn dechrau gyda chynllun gofal, Pobl Ifanc gyda chynllun gofal parhaus), dylem fod yn barod i gyflawni canlyniadau rhesymol ar gyfer y flwyddyn gyntaf.

Ffactorau Allanol

- Mae arian Plant yn Gyntaf wedi bod yn ddylanwad sylweddol.
- Mae gweithredu cymunedol yn erbyn cartrefi preswyl wedi tawelu. (Dim cwynion am dros flwyddyn).
- Perthynas well gydag Addysg.
- Perthynas well gydag aelodau etholedig a chynnwys Diwylliant a Hamdden wrth fagu plant Corfforaethol.
- Ers cyflwyno cadeiryddion PDG a Thîm PDG mae'r gwasanaeth wedi gwella
- Mae Safonau Gofal Newydd yn y ddeddfwriaeth wedi galw am newidiadau yn y gweithdrefnau ar gyfer gofal preswyl a gofal maeth
- Llwybrau newydd o ofynion Gofal y CCC
- Mae twf parhaol y rhai Annibynnol wedi gosod straen enfawr ar y gwasanaeth.

Pennod 6**Adolygiadau Gwasanaeth yn 2001/02****Cyflwyniad**

Yng Nghynllun Perfformiad Gwerth Gorau'r Cyngor 2001/02, nodwyd bod 20 gwasanaeth i'w hadolygu naill ai yn ystod 2001/02 neu i ddechrau yn 2001/02 ac i orffen yn 2002/03. O'r cyfanswm hwn, cwblhawyd 8 adolygiad yn ystod y flwyddyn.

Ni ddechreuwyd ar dair ardal adolygu oherwydd penderfynwyd y dylid mynd i'r afael â'r rhain yn y dyfodol neu mewn ffordd wahanol. Yn achos adolygiadau a gynlluniwyd ar gyfer Rheoli Stadau a Rheoli Tai Gwag, penderfynwyd y byddai'r rhain yn cael eu cynnwys mewn Adolygiad Rheoli Tai mwy eang. Trefnwyd Adolygu Cludiant yn 2002/03 er bod hyn yn debygol o newid o ganlyniad i gyflwyno Rhaglen Gwella Cymru.

O'r 9 adolygiad sy'n weddill, yn wreiddiol roedd Rheoli Traffig (Gwasanaethau Technegol) a Gwasanaethau i'r Henoed (Gwasanaethau Cymdeithasol) i fod i gymryd 2 flynedd i'w cwblhau. Roedd yr asesiad gwreiddiol hwn yn gywir ac mae'r ddau adolygiad ar darged i gwblhau yn 2002/03.

Ni fydd y 7 adolygiad sy'n weddill, a oedd i fod i orffen yn 2001/02, yn gorffen tan 2002/03. Mae'r rhesymau dros y newidiadau hyn i'r rhaglen adolygu wreiddiol yn cael eu nodi ar ddiwedd y Bennod hon.

Adolygiadau a orffennwyd yn 2001/02**Design Print (Is-adran Gwasanaethau Rheoli, Adran y Prif Weithredwr)**Manylion y gwasanaeth

- Mae Design Print yn darparu gwasanaeth dylunio, cyn-argraffu, argraffu, gorffeniad ac argraffu digidol i Ddinas a Sir Abertawe, elusennau lleol a chyrrff cyhoeddus.
- Mae'n cyflogi 21 o staff llawn amser
- Cyfrannu gwarged flynyddol o £40,000

Canfyddiadau

- Angen ymateb i adborth cwsmeriaid mewn ffordd fwy strwythuredig ac amserol
- Mae angen ehangu'r gronfa gwsmeriaid a chadw'r cwsmeriaid sydd ganddynt
- Mae newidiadau mewn technoleg yn golygu bod peiriannau newydd yn fwy fforddadwy. Mae'r llun-gopiwr lliw presennol yn ddrud ac mae problem gyda rheoli'r lliw
- Hoffai rai cwsmeriaid gael cyfleuster llungopio lliw yn Neuadd y Ddinas
- Teimlwyd bod gofal cwsmeriaid cyfredol yn hanfodol i sicrhau busnes parhaol
- Cafwyd diffyg cyngor ar DDA a materion ieithyddol yn yr ymgynghori cychwynnol gyda'r dylunwyr

- Angen ehangu gwasanaethau yn yr uned llungopiö er mwyn argraffu data amrywiol. Cyfaint cyfredol yr argraffwyr digidol yw 50% yn unig
- Ni ddarperir unrhyw hydwythedd gydag argraffwyr digidol yn Neuadd y Sir. Mae angen diweddarur'r hen lun-gopiwr analog yn Neuadd y Ddinas
- Ceir newidiadau yn y prosesau cynhyrchu a'r peiriannau drwy'r amser – eisiau cadw i fyny â datblygiadau

Camau

- Datblygwyd fersiwn electronig o'r holiadur, a anfonir at gwsmeriaid ar ôl gorffen pob darn o waith.
- Datblygwyd safle ar y Fewnrwyd gyda manylion cysylltu, awgrymiadau a chynghor, rhestr o wasanaethau
- Hysbysebwyd Designprint yng nghatalog County Supplies a Sweyns Eye
- Diweddarwyd y llun-gopiwr lliw sydd wedi gwella ansawdd y cynnyrch a rheoli'r lliw am bris mwy fforddadwy na'r copiwr blaenorol
- Gallu derbyn gwaith copïo lliw drwy'r rhwydwaith
- Cwblhawyd hyfforddiant gofal cwsmeriaid gyda'r staff cyfan
- Derbyniwyd rhagor o gyngor ar DDA a nawr rhoddir cyngor ar faterion ieithyddol yn ystod yr ymgynghoriad dylunio
- Mae'n darparu gwasanaeth argraffu data amrywiol ar gyfer anfonebau, biliau treth y cyngor, llythyron budd-dâl tai. Mae'r busnes ychwanegol wedi cynyddu'r gwaith ar yr argraffwyr digidol – y gobaith yw diogelu rhagor o gynhyrchiad yn y dyfodol
- Uwchraddio llun-gopiwr Neuadd y Ddinas i argraffydd digidol 6180 i gyd-fynd â'r hyn sydd yn Neuadd y Sir gan sicrhau cysondeb a hydwythedd yn ystod methiannau
- Ymweld ag arddangosfa argraffu IPEX er mwyn archwilio technoleg newydd ac ymchwilio i weisg argraffu

Diogelwch a chyfleusterau (Is-adran Gwasanaethau Cyfreithiol a Phwyllgorau, Adran y Prif Weithredwr)

Manylion y gwasanaeth

- Cost net £871,533
- Mae'n cyflogi 41 o staff llawn amser
- Mae'r gwasanaeth yn cynnwys Diogelwch /Gofalu, Cynnal a Chadw Tiroedd, Cynnal a Chadw Adeiladau, Teleffonyddion/Derbynyddion, Rheoli Adeiladau gan gynnwys Meysydd Parcio'r Adeiladau Dinesig a'r gwasanaeth Gyrwyr/ Negesyddion.

Canfyddiadau

- Yn gyffredinol, roedd awydd am ragor o batrolau **diogelwch** gweladwy rheolaidd
- Teimlwyd bod gwendid o ran rheoli contractwyr ac ymwelwyr, yn enwedig yn Neuadd y Ddinas

- Teimlai defnyddwyr y tu allan i oriau'r swyddfa bod y gweithredu a gymerwyd ar adroddiadau a oedd yn ymwneud â materion **gofalu** yn wael yn gyffredinol yn Neuadd y Sir a Neuadd y Ddinas
- Staff 'mewnol' sy'n gyfrifol am **gynnal y tiroedd a'r ardaloedd o amgylch** Neuadd y Sir yn ddyddiol ac mae tiroedd Neuadd y Ddinas yn cael eu cynnal gan Is-adran Parciau, Adran Diwylliant a Hamdden.
- Dangosodd yr holiaduron bod y mwyafrif yn fodlon ar gynnal a chadw'r tir o amgylch Neuadd y Sir a Neuadd y Ddinas.
- Mae **Cynnal Adeiladau** yn gweithredu'n wahanol yn y 2 leoliad dinesig. Mae cynnal a chadw adeilad Neuadd y Ddinas yn cael ei ddarparu gan y staff mewnol drwy Raglen Cynnal Ataliol Cynlluniedig ac mae cynnal Neuadd y Sir yn cael ei ddarparu gan Is-adran Cynnal Adeiladau, Adran Gwasanaethau Technegol. Nododd yr adolygiad nad hyn oedd y ffordd fwyaf cost effeithiol o weithredu'r gwasanaeth
- Mae Agenda yn cael ei dosbarthu bob nos Wener i Aelodau Etholedig yr Awdurdod gan y gyrrwr/ negeswr, sy'n cael ei wneud fel goramser.
- Mae'r **Tele/Derbynyddion** yn darparu gwasanaeth llawn ar gyfer Neuadd y Ddinas a Neuadd y Sir yn ystod oriau gwaith arferol
- Mae'n ymddangos bod rhai o ddyletswyddau'r **Rheolwr Adeiladau** a'r Uwch arolygydd Adeiladau yn cael eu dyblygu
- Roedd **parcio ceir** yn yr adeiladau dinesig yn asgwrn cynnen yn enwedig yn ystod misoedd yr haf yn Neuadd y Sir.
- Nododd yr holiaduron bod y mwyafrif o bobl yn hapus gyda chwarteisi a chymwynasgarwch staff y maes parcio

Gweithrediadau:

- Ailstrwythuro'r Gwasanaeth Diogelwch /Gofalu yn wasanaethau Diogelwch a Gofalu ar wahân.
- Edrych ar safoni'r gwasanaeth cynnal tiroedd.
- Y prif weithredu yw safoni'r gwasanaeth cynnal adeiladau yn y ffordd fwyaf effeithiol.
- Ystyried defnyddio cerbydau tanwydd dwbl, ac archwilio i'r posibilrwydd o e-bostio agendâu yn hytrach na'r gwasanaeth gyrrwr/negesydd.
- Cyflogi prif deleffonydd a chyflwyno llawlyfr gweithdrefnau.
- Ailstrwythuro'r rheolwyr adeiladu gyda'r bwriad o ad-drefnu dyletswyddau.
- Archwilio i'r defnydd o rwystrau rheoli traffig ym meysydd parcio Neuadd y Sir.

Chwaraeon ac Adloniant (Adran Diwylliant a Hamdden)Manylion y Gwasanaeth:

- Mae'n cynnwys Canolfannau Hamdden Cymunedol Cefn Hengoed, Treforys, Penlan a Phenyrheol ynghyd â Chanolfan Hamdden Abertawe.
- Mae gan bob un ohonynt gost net flynyddol o:

Cefn Hengoed	£243,900
Treforys	£181,500
Penlan	£389,200
Penyrheol	£308,600
Abertawe	£1,507,000
- Maent yn cyflogi 123 o weithwyr:

Canfyddiadau:

- Yn wan o ran materion trawsdorri a gweithio mewn partneriaeth ag Addysg a Ieuenctid
- Mae angen sylweddol i'n llawn beth yw goblygiadau'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd ar y gwasanaeth a phenderfynu ar gyflwr cyffredinol Cyfleusterau'r Canolfannau Hamdden.
- Angen archwilio ymhellach yr angen i rai neu bob gwasanaeth dderbyn cystadleuaeth allanol. Sut rydym yn cymharu gyda gwasanaethau tebyg yn lleol ac yn genedlaethol o ran ansawdd a chost y gwasanaeth yr ydym yn ei ddarparu.
- A ydym yn gwybod beth mae ein cwsmer wir eisiau o'r gwasanaeth?
- A yw'r athroniaeth gyffredinol am ganolfannau hamdden cymunedol wedi newid ers eu cyflwyno ryw 12 mlynedd yn ôl?

Camau:

- Sefydlu cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Adran Addysg mewn cydweithrediad â'r Prif Swyddog Iechyd, Cymunedol a Ieuenctid er mwyn datblygu cynlluniau partneriaeth ieuencid effeithiol
- Gwerthuso cyflwr presennol adeiladau'r canolfannau hamdden mewn perthynas â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd a llunio adroddiad yn seiliedig ar ganfyddiadau a goblygiadau'r gwasanaeth.
- Datblygu a lleoli cynllun caffael 5 mlynedd ar gyfer y gwasanaeth
- Dod yn aelod gweithgar o grwpiau meincnodi lleol a chenedlaethol fel y gallwn ddatblygu a gwella ein gwasanaeth a chynorthwyo i ddatblygu'r diwydiant hamdden ar sail genedlaethol.
- Parhau â'r arolygon boddhad cwsmeriaid a chychwyn grwpiau ffocws cwsmeriaid ar bob safle.
- Ailedrych ar bolisi 'sy'n well gan y gymuned' Mawrth 1989 gyda'r bwriad o'i ddiweddarau a'i wneud yn fwy perthnasol i ofynion presennol y gwasanaeth a'r rhai y mae'n eu gwasanaethu.

Gwasanaeth Lles Addysg (Adran Addysg)Manylion y gwasanaeth:

- Cost net o £279,900
- Mae'n cyflogi 14 o staff parhaol a 7 o staff a ariannir yn allanol
- Mae'n darparu cymorth i bobl ifanc, eu teuluoedd ac ysgolion er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn manteisio o'r cyfleoedd addysgol sy'n cael eu darparu.

Noder: Arolygwyd y gwasanaeth hwn yn ddiweddar gan Estyn. Rhaid aros am ganlyniadau terfynol yr arolygiad, ond yn ystod cam Cwestiynu yn y cyfamser, roedd yr arolygwyr wedi marcio'r gwasanaeth fel gwasanaeth gweddol, gyda disgwyliadau ansicr am welliant.

Canfyddiadau:

- Mae adnoddau annigonol y gwasanaeth yn atal ei ddatblygiad ac yn peri lefel uchel o straen.
- Canfyddiad y gwasanaeth gan y defnyddwyr, y partneriaid a'r staff. Mae angen egluro'r rôl a gorchwylio'r gwasanaeth.
- Rhaid cydnabod gweithio mewn partneriaeth yn ffurfiol fel rhywbeth hanfodol a'i ddatblygu.
- Datblygu'r gwasanaeth mewn rôl mwy rhagweithiol, cymryd rhan mewn darpariaeth Gwricwlwm wahanol a chynghori.
- Rhaid datblygu prosesau cyflwyno gwasanaeth gan gynnwys fframwaith arfer gyffredin, gweithdrefnau gweinyddiaeth a swyddfa, cronfa ddata ffeiliau achos canolog, a mesurau perfformiad ystyrlon.

Camau:**1. Canfyddiad o'r Gwasanaeth Lles Addysg:**

- Cynyddu ymwybyddiaeth ac egluro rôl y GLIA drwy ddatblygu Fframwaith Ymarfer ac adolygu disgrifiadau swydd
- Safoni cyfathrebu a llety ar draws y gwasanaeth

2. Datblygu'r Gwasanaeth Lles Addysg ar gyfer y dyfodol

- Adolygu'r lefelau staffio, safoni gweithdrefnau a datblygu'r GLIA o fewn Mynediad i Ddysgu yn yr Adran Addysg.
- Datblygu rôl fwy ragweithiol ar gyfer y GLIA sy'n cael ei monitro a'i gwerthuso'n rheolaidd
- Chwilio am ariannu allanol ar gyfer gwaith datblygu

3. Datblygu Gweithio Mewn Partneriaeth

- Datblygu partneriaethau a rhannu gwybodaeth ar draws yr Adran Addysg a gydag adrannau ac asiantaethau eraill.

Is-adran Trwyddedu (Adran yr Amgylchedd a Iechyd)Manylion y gwasanaeth

- Cost £338,500 (ac eithrio incwm)
- Mae'n cyflogi 11 o staff
- Pwrpas yr Is-adran Trwyddedu yw sicrhau iechyd, diogelwch a lles y cyhoedd mewn tai trwyddedig, mewn digwyddiadau trwyddedig ac mewn cerbydau trwyddedig. Hefyd drwy ei rôl gorfodi mae'r swyddogaeth drwyddedu yn diogelu'r cyhoedd yn erbyn gweithgareddau heb drwydded.

Prif Ganfyddiadau

- Mae'r drefn adnewyddu ar gyfer trwyddedu tacsis yn caniatáu cyflwyno ceisiadau munud olaf gan yr ymgeiswyr sy'n cael effaith ar gyflwyno'r gwasanaeth
- Llwyth gwaith – amrywiadau tymhorol sy'n cael effaith ar gyflwyno gwasanaeth, targedau heb gael eu cyflawni
- Nifer annigonol o safleoedd tacsis.
- Gwybodaeth annigonol ar gael i'r busnesau gwahanol mewn perthynas â'r gweithdrefnau gwneud cais, ymddangos mewn pwyllgorau, dyddiadau pwyllgorau yn aneglur.
- Gwybodaeth annigonol yn cael ei darparu i ddeiliaid trwydded mewn perthynas â goruchwylwyr drws cofrestredig.
- Mae'r pecyn TG a ddefnyddir ar hyn o bryd yn annigonol ar gyfer trwyddedu.
- Trosiant cyson o staff a hyfforddiant strwythuredig annigonol i staff newydd.
- Blaenoriaeth annigonol o weithredu gorfodiad.
- Mae'r cwsmeriaid (yn enwedig y busnes tacsis) yn disgwyl ymateb syth i ymholiadau/ceisiadau.
- Bylchau yn yr ymgynghori presennol.
- Hyfforddiant annigonol i Aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu

Camau

- Diwygio'r weithdrefn adnewyddu trwyddedau tacsis
- Cyflwynwyd rhaglen waith gynlluniedig
- Adolygu nifer a lleoliad y safleoedd tacsis ar y cyd â busnesau, yr Heddlu a'r Gwasanaethau Technegol
- Cyflwyno dogfen bolisi/arfer i'w chyflwyno i fusnesau
- Cyflwynwyd gweithdrefn i ddarparu gwybodaeth i ddeiliaid trwydded ynghylch Goruchwylwyr Drws
- Gweithio ar y cyd ag ymgynghorydd TG/Gweinyddwr Fflerau i ddatblygu System TG ar gyfer trwyddedu /adolygu systemau gwahanol i ddod o hyd i becynnau mwy effeithiol.
- Mae cynllun hyfforddi yn cael ei ddrafftio ar hyn o bryd ar gyfer staff gweinyddol.
- Blaenoriaethu ymweliadau â llefydd adloniant, cyflwyno cynllun gwaith ar gyfer mesurau gorfodi masnachu ar y strydoedd. Ar hyn o bryd, gwneir gwaith ar raglen orfodi ar gyfer yr ardaloedd sy'n weddill

- Cyflwynwyd gweithdrefn newydd ar gyfer mynd i'r afael ag ymholiadau tacsis
- Defnyddio ymgynghoriad Lleisiau Abertawe, meysydd ymgynghori eraill i fynd i'r afael â nhw drwy eu cynnwys yn y cynllun gwella
- Hyfforddiant i aelodau i gael ei adolygu a'i ddiweddarau

Mae'r uchod yn nodi rhai o brif ganfyddiadau'r adolygiad ond nid yw'n cynnwys yr holl faterion a nodwyd. Nid yw'r Cynllun Gweithredu wedi cael ei gymeradwyo eto. Disgwylir i'r adolygiad fod yn barod erbyn Awst 2002.

Is-adran Safonau Masnach (Adran yr Amgylchedd a Iechyd)Manylion y gwasanaeth:

- Cost net o £650,000
- Mae'n cyflogi 22 o staff
- Mae'n gorfodi deddfwriaeth diogelu'r defnyddiwr, yn darparu gwasanaeth Cyngor i Ddefnyddwyr ac yn ymchwilio i gwynion. Mae defnyddwyr y gwasanaeth yn cynnwys busnesau lleol, aelodau'r cyhoedd, gwasanaethau eraill yr Awdurdod Lleol, Awdurdodau Lleol eraill, adrannau'r Llywodraeth, a Chymdeithasau Masnach a Busnes.

Canfyddiadau:

- Angen adnoddau i gwrdd â gofynion busnes ac e-fasnach 7 diwrnod 24 awr
- Angen codi proffil y gwasanaeth
- Angen i'r cyhoedd ddeall rôl y gwasanaeth
- Y gallu i flaenoriaethu gweithgareddau i ardaloedd o angen mawr

Nododd y rhai yr ymgynghorwyd â nhw mai blaenoriaethau canfyddedig y gwasanaeth oedd:

- Mynd i'r afael â masnachwyr anghyfreithlon
- Ansawdd bwyd a labelu
- Darparu cymorth i fusnesau er mwyn annog cydymffurfio â'r deddfau masnachu ac osgoi problemau defnyddwyr

Camau (Byr Dymor)

- Gweithredu rhaglen o addysg i ddefnyddwyr ar y cyd â'r gwasanaeth ieuenctid.
- Datblygu pwyntiau gwybodaeth i ddefnyddwyr mewn adeiladau cyhoeddus yn Ninas a Sir Abertawe
- Defnyddio papur y Gymuned i godi proffil y gwasanaeth
- Trefnu gweithgareddau addysgol a gorfodi gyda'r Heddlu mewn perthynas â gwerthu alcohol i bobl ifanc
- Cyflwyno strategaeth arolygu hunan asesu wahanol
- Gweithredu strategaethau arolygu iechyd anifeiliaid sy'n gyson â'r gofynion oherwydd Clwy'r Traed a'r Genau
- Cychwynwyd ar ymgynghori rheolaidd gwell gyda'r buddiolwyr yn 2001

- Gwneud rhagor o ddefnydd o wybodaeth am fasnachwyr anghyfreithlon, drwy ddefnyddio'r ddeddfwriaeth "Stopiwch Nawr"
- Datblygu cytundebau ffurfiol gyda busnesau
- Datblygu gwybodaeth canllaw masnachu

Camau (Hir Dymor)

- Datblygu cyngor busnes drwy strwythurau'r cyngor neu gymuned fusnes bresennol
- Asesu cyflwyno'r gwasanaeth yn dilyn adolygu Safonau Masnach gan Dasglu a Grŵp Gorffen CLILC
- Datblygu Rhwydwaith Cefnogi Defnyddwyr.
- Creu cytundeb lefel gwasanaeth gyda'r CC.
- Cyflwyno Siarter ar gyfer Contractwyr Adeiladu
- Datblygu'r defnydd o gynllun perfformiad y DTI fel fframwaith ar gyfer cymharu a gwella.
- Cyflwyno "Canllawiau Arfer Da" i bob faes priodol o gyflwyno gwasanaeth a chyflawni safon arfer gwell.
- Cyfrannu at gyflawni'r Marc Siarter gan Adran yr Amgylchedd a Iechyd.

Asesu a Rheoli Gofal (Oedolion) (Adran Gwasanaethau Cymdeithasol)

Manylion y gwasanaeth:

- Cost net o £4,130,000
- Mae'n cyflogi 209 o bobl
- Mae'n gwneud asesiadau o anghenion unigol pobl, yn gwneud penderfyniadau ar yr adnoddau y mae eu hangen i gefnogi pobl ac mae'n gweithio ar y cyd i gyd-fynd â'u darpariaeth o wasanaethau cefnogi. Mae'n darparu gwybodaeth, cymorth a chyngor i bobl fregus a'u gofawyr sydd eisiau cael mynediad i'r gwasanaethau cefnogi.

Canfyddiadau:

Mae 4 prif ardal lle mae angen i'r gwasanaeth wella.

1. *Cynwysoldeb.* Mae hyn yn cynnwys trefniadau mynediad mwy cyson, meini prawf cymhwyster clir, gwybodaeth well i'r cyhoedd, ac amserau ymateb teg.
2. *Asesu a Rheoli Gofal yn Gweithredu.* Mae hyn yn cynnwys adolygu rôl a chyfrifoldebau'r Rheolwr Gofal, a datblygu arweiniad/ polisiâu ar reoli ffeiliau achos, asesiad oherwydd angen, cynllunio gofal, taliadau uniongyrchol ac asesiadau risg.
3. *Ymatebolrwydd.* Mae hyn yn cynnwys rhagor o ymrwymiad gan y defnyddiwr wrth werthuso a datblygu'r gwasanaethau, cynllunio gwasanaeth a gweithredu ar y cyd gyda sefydliadau partner, a chytuno ar brotocolau safonol perfformiad ac ansawdd.
4. *Gwybodaeth i Reoli.* Mae'r adolygiad wedi nodi'r angen am System Gwybodaeth Cleient integredig, yn ogystal â chrynhoi gwybodaeth er mwyn hysbysu cynllunio a chomisiynu, a monitro perfformiad a safonau ansawdd.

Camau

Mae'r adolygiad hwn bron wedi'i gwblhau, ond mae'r Cynllun Gweithredu ar ffurf drafft o hyd ac nid yw wedi mynd drwy'r broses wleidyddol.

Serch hynny, mae un ardal bwysig o waith wedi dechrau yn barod. Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithio'n agos gyda Iechyd i ddatblygu ymagwedd unedig tuag at asesu. Cynhaliwyd nifer o weithdai a oedd yn cynnwys ymarferwyr a rheolwyr o'r holl asiantaethau.

Gwasanaethau Cefnogi Teuluoedd. (Adran y Gwasanaethau Cymdeithasol)

Manylion y gwasanaeth:

- Cost net o £847,441
- Mae'n cyflogi 71 o staff
- Mae'r Gwasanaethau Cefnogi Teuluoedd yn cyfuno Portage, CAST (Tîm Cefnogi Plant Adolesent), Gwasanaethau sy'n atal gwaharddiad, Canolfan Teuluoedd Mayhill a Gwarchodwyr Plant Cymunedol.
- Darperir y gwasanaethau hyn er mwyn atal mynediad i ofal cyhoeddus, gwneud y mwyaf o ddatblygiad a lles a hyrwyddo cyrhaeddiad addysgol, presenoldeb ac atal gwaharddiad o'r ysgol.

Prif ganfyddiadau.

- Darperir ystod eang o wasanaethau am gost gymharol isel.
- Mae'r gwasanaethau hyn yn cael eu gwerthfawrogi gan ddefnyddwyr y gwasanaeth a chyfeirwyr.
- Mae cysylltiadau amlasiantaeth da.
- Mae'r gallu i gwrdd â'r galw yn amrywio ar draws yr ardaloedd gwasanaeth.
- Mae angen pwyslais cynyddol o ran rheoli perfformiad a mesurau canlyniad.
- Mae ymgynghori a chyfranogaeth gan yr ardaloedd gwasanaeth yn amrywiol.
- Mae cyfathrebu gyda chyfeirwyr yn amrywio o ran effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd.

Camau

- Llunio a gweithredu'r strategaeth cefnogi Teuluoedd.
- Sefydlu dangosyddion perfformiad dealladwy a chyson
- Protocol cyfathrebu gyda chyfeirwyr
- Strategaeth cyfranogiad dealladwy sy'n gyson ar draws pob ardal.
- Ystyried cyllideb ar gyfer adnoddau ychwanegol ar gyfer y gwasanaeth Portage ac Ailsefydlu.
- Atyniad parhaol cyllido allanol ychwanegol e.e. Cymroth, Amcan Un.

Noder

Nid yw'r Cynllun Gweithredu wedi cael ei gymeradwyo eto.

Adolygiadau a ddechreuwyd yn 2001/02 gyda'r bwriad o gwblhau yn wreiddiol yn 2002/03

Gwasanaethau ar gyfer yr Henoed (Gwasanaethau Cymdeithasol)

Mae'r maes hwn o waith yn cyflogi tua 959 o bobl ac yn cysylltu ag ystod o sefydliadau allanol preifat a gwirfoddol. Mae'n darparu ystod o wasanaethau ar gyfer yr henoed a'u gofalwyr gan gynnwys gofal cartref, darparu prydu, gofal preswyl a nyrsio. Y cyfanswm gwariant ar y gwasanaeth hwn yw £22,820,000.

Mae'r Adolygiad Gwerth Gorau o wasanaethau ar gyfer yr Henoed yn Adolygiad Gwasanaeth Cyfan. Wrth ystyried maint yr adolygiad mae Prosiect Gwella'r Gwasanaeth yn cydlynu'r gwaith y mae angen ei wneud. Oherwydd cymhlethdod a maint yr adolygiad, treuliyd amser dibendraw yn cwmpasu ac yn cynllunio'r adolygiad, a bu peth ymrwymiad cynnar gan weithwyr ar bob lefel wrth gwestiynu'r gwasanaethau presennol. Cyflwynwyd datganiad sefyllfa drafft cychwynnol i'r Aelodau.

Ymhellach, bu'r datblygiad yn fwy anodd oherwydd yr angen am baratoi Adolygiad ar y Cyd. Serch hynny, gobeithir y bydd llawer o'r gwaith a'r canlyniadau'n gadarnhaol. Bydd y canfyddiadau cychwynnol yn cael eu hadrodd erbyn Mawrth 2003. Bydd ail gam y prosiect dwy flynedd yn mynd i'r afael â materion gweithredu.

Rheoli Traffig (Adran Gwasanaethau Technegol)

Mae'r ardal wasanaeth hon yn ymwneud yn bennaf â Rheoli Traffig, Lleihau Damweiniau, rheoli/ symudiadau traffig a Gweinyddiaeth gysylltiedig. Ymgymerir â'r gwaith dan bwerau a ddyfarnwyd gan ddeddfwriaethau amrywiol, sy'n gofyn i awdurdodau lleol sicrhau symudiad rhwydd, cyfleus a diogel o gerbydau a thraffig eraill a darparu cyfleusterau parcio addas a digonol. Mae Deddf Traffig Ffyrdd 1988 hefyd yn mynnu bod yr awdurdodau'n gwneud astudiaethau o ddamweiniau a ddigwyddodd oherwydd cerbydau ac yn cymryd mesurau i geisio atal damweiniau o'r fath.

Y gost net yw £3,509,500 y flwyddyn ac mae'r gwasanaeth yn cyflogi 25 yn ogystal â 100 o batrolau croesi ysgolion. Dechreuwyd ar yr adolygiad hwn ers tro ac mae'n edrych yn debygol y bydd wedi'i gwblhau ar amser erbyn Mawrth 2003.

Adolygiadau eraill i'w cwblhau yn 2002/03

Y bwriad yw y bydd yr adolygiadau sy'n weddill yn cael eu cwblhau yn ystod 2002/03.

Gwasanaethau Canol y Ddinas – trawsdorri

Mae'r adolygiad trawsdorri hwn yn cynnwys pob gwasanaeth sy'n cael ei dargedu gan Ganol y Ddinas. Mae'r gwasanaethau hyn yn cael eu darparu gan nifer o adrannau. Mae'r adnoddau ariannol a dynol a ddyrannwyd i Ganol y Ddinas yn anodd i'w mesur fan hyn, oherwydd maent yn cael eu rhannu ar draws adrannau, ond byddant yn cael eu nodi fel rhan o'r adolygiad.

Bu oedi yn yr adolygiad oherwydd cymhlethdod maint yr adolygiad, a'r angen am ymrwymiad cryf oddi wrth yr aelodau o'r camau cynharaf. Mae'r gwaith wedi dechrau erbyn hyn a disgwylir i adroddiad dros dro gael ei gyhoeddi yng Nghynllun Gwella'r flwyddyn nesaf.

Nid oes dyddiad gorffen ar gyfer yr adolygiad wedi cael ei bennu eto, ond ni ddylai fod yn hwyrach na diwedd 2003.

Cynnal Tai (Adrannau Tai a Gwasanaethau Technegol)

Cychwynnwyd ar yr adolygiad hwn o wasanaeth mawr a phwysig (cyllideb bresennol o tua £13.5m ac mae'n cyflogi tua 320 o bobl) yn ystod 2001/02 a disgwylir iddo fod wedi'i gwblhau erbyn diwedd 2002. Er yn cynnwys dwy adran sylweddol, mae gan faint yr adolygiad effaith bosib ar nifer o wasanaethau eraill. Nid yw'n briodol nodi'r canfyddiadau fan hyn oherwydd mae thrafodaethau a dadansoddi'n dal i barhau.

Is-adran Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (Prif Weithredwr (Adnoddau))

Mae'r gwasanaeth hwn yn costio tua £2,963,400 yf, ac yn cyflogi 102 o staff ac yn cael effaith ar bob gwasanaeth arall a ddarperir gan y Cyngor. O ran hynny, gellir ei ystyried fel trawsdoriad. Ar yr adeg pan oedd yr adolygiad yn mynd yn ei flaen roedd nifer o weithgareddau eraill yn cael eu cynnal a fyddai'n cael effaith ar yr Adolygiad hwn (e.e drafftio Datganiad IEG) a dyfodol TG yn y Cyngor.

Er bod y rhan fwyaf o ffocws yr adolygiad hwn wedi bod ar ddarpariaeth y gwasanaeth presennol, bu gweithredu'n barod ar 3 ardal allweddol o'r strategaeth cyn i'r adroddiad terfynol gael ei gyhoeddi. Y 3 yw:

- Strategaeth TGCh
- Rheoli Gwybodaeth
- Strategaeth E-lywodraeth

Cyflogwyd ymgynghorwyr allanol i weithio gyda'r Cyngor i ddatblygu'r ardaloedd hyn a'r

bwriad yw y byddant yn llunio'r adroddiadau terfynol ym mis Medi tua'r un pryd ag y mae'r Adolygiad TG i'w gwblhau. Bydd y ddau weithgaredd yn bwydo i'r Cynllun Gweithredu terfynol a ddisgwyllir erbyn diwedd 2002.

Caffael – trawsdorri

Mae'r adolygiad hwn yn effeithio ar bob gwasanaeth sy'n gwario cyfanswm o tua £70m yf yn allanol ar nwyddau a gwasanaethau. Mae'r adolygiad yn edrych ar bob agwedd o gaffael o'r cyfnod gwneud penderfyniadau i gyflwyno'r gwasanaeth.

Bu cynnydd sylweddol a nodwyd rhai camau angenrheidiol sy'n cael eu gweithredu'n barod – yn bennaf adnewyddu Rhestr Gymeradwy'r Cyngor yn llwyr. Mae'r rhan fwyaf o'r dadansoddi wedi'i gwblhau a disgwyllir y bydd yr adroddiad terfynol a'r Cynllun Gweithredu ar gael erbyn Rhagfyr 2003.

